

# CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

**Rhifyn 335 - 60c  
Gorffennaf 2015**

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Gwobrau**

**MAWR**

**Clwb Clonc**

1af - £50  
2il - £50  
3ydd - £25  
4ydd - £25

Tudalen 4

**Cadwyn**

**Cyfrinachau**

**arall**



Tudalen 20

**Lluniau**

**Carnifal**

**Llanybydder**



Tudalen 26

## Dathlu Llwyddiannau



CFfi Llanwennog – Y grŵp yng nghystadleuaeth “Cabaret” ac yn ennill yn niwrnod y Rali. Pob lwc yn y Sioe Frenhinol.

CFfi Bro'r Dderi yn gyntaf yng Nghystadleuaeth y Moroedd Mawr yn Rali Ceredigion.




Sian Elin Williams, Pencarreg ger Llanybydder ac aelod o dîm siarad cyhoeddus Aelwyd Pantycelyn, a enillodd y wobr gyntaf fel tîm yn Eisteddfod yr Urdd, Caerffili. Hefyd derbyniodd Sian Elin Dlws y Siaradwr Gorau yn yr holl gystadleuaeth ac yn ychwanegol at y tlws bydd yn cael mynd i ymweld â'r Senedd Ewropeaidd ym Mrwsel ar ddechrau Mis Gorffennaf.



Enfys Hatcher, Brenhines Ceredigion gyda'r morwynion, Rhiannon Davies, Caerwedros, Elin Calan Jones, Llangwryfon, Lisa Jones, Pontsian, Sioned Davies, Llanwenog a Ffiamwr Ifanc y Flwyddyn, Dion Davies, Pontsian.

## Emynau'r Mawndir a Dylanwad Oes - Beryl Davies

Dyma'r ail gyfrol o waith diweddar Beryl Davies, Llanddewi Brefi. Casgliad newydd ar destunau amrywiol sydd yn cael eu canu a'u defnyddio'n barod fel pynciau trafod a gwersi mewn addoldy ac ysgol. Gwledd yn wir gan gynnwys 24 emyn, 17 cerdd, emyn-dôn, ambell ysgrif a chyfweliad â hi a ymddangosodd yng nghylchgrawn Cristion. Cafodd nifer o'r darnau eu gwobrwyo mewn eisteddfodau lleol. Yn ychwanegol mae yn y llyfr luniau a hanesion am oes yr awdur a fu'n ddylanwad ar y cyfan.



Mae *Emynau'r Mawndir a Dylanwad Oes* yn chwaer-gyrol i *Emynau'r Mynydd a Dylanwad Bore Oes*.



Ar gael yn eich siop lyfrau leol.



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Trydarodd  
[@Clonc360](#)  
Mehefin 21

Dechrau da i Wythnos Carnifal [#Llanybydder](#) gyda Chymanfa yn Aberduar.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd  
[@Clonc360](#) neges  
[@lois\\_wms](#)  
Mehefin 14

[@CorCorisma](#) Co ni off de! Recordio ein CD [#canu](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd  
[@Clonc360](#)  
Mehefin 13

Dau gyn aelod o [@CFfICwmann](#) yn derbyn MBE [@cffisigar](#) [@Clybiaugwawr](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

2015

## Papurau Bro Ceredigion Eisteddfod Ddwl

16eg o Hydref

Drysau yn agor am 7.00  
Dechrau am 7.30

Neuadd Felin-fach

Mynediad £3

Anweinydd y noson  
Cen Llwyd

Beirniaid  
Trefor Pugh a  
Donald Morgan

Y TINCER

Y Barcud

y 6 arthen

Y Dwrgi

Yr Angor

Llais Aeron

CLONC

Y GOLEN

Y Gambo

Papur Pawb

### O'r Llwyfan

Dweud Jôc

Sgets, gyda dim mwy na chwech mewn nifer yn y grŵp, i bara dim mwy na phum munud. Testun - Etholiad

Cystadleuaeth Dweud Stori a Gwneud Stumiau/Synau i Bâr. Ceir y stori ar y noson

Dyfarnir marciau ymhob cystadleuaeth o 5 i'r enillydd, 3 i'r sawl ddaw yn ail ac i'r trydydd. Cyflwynir tlws wedi ei noddi gan y Lolfa i'r papur bro sydd â'r cyfanswm uchaf o farciau ar ddiwedd y cystadlu

Cefnogwch eich papur bro!



### Gwaith Cartref

Ar gyfer plant oed cynradd - Peintio cymeriad cyfoes

Ar gyfer dysgwyr - Erthygl ddiwyf ar gyfer papur bro dim mwy na 300 o eiriau

Ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd ac o dan 19 oed - erthygl ddiddorol ar gyfer papur bro dim mwy na 300 o eiriau

Llunio brawddeg, gyda'r geiriau yn eu tro yn cychwyn gyda'r llythrennau - LL-A-I-N-D-E-L-Y-N

Gorffen llinig - Mae Cen yn meddwl mynd leni

Creu carden cyfarch ar gyfer unrhyw achlysur

Creu poster A4 ar gyfer Ffair Nadolig

Anfonwch eich gwaith cartref (o dan ffugenw, gyda manylion cyswllt ac enw papur bro mewn amlen wedi atodi) erbyn y 9fed Hydref at:

Megan Jones, 24 Penrhedol, Penparcâu, Aberystwyth SY23 1QW



Aildrydarodd  
[@Clonc360](#) neges  
[@YsgolHR](#)  
Mehefin 6

Llongyfarchiadau Miss [@EnfysHatcher](#) Brenhines [@CeredigionYFC](#) yn [#ralicardi](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd  
[@Clonc360](#) neges  
[@DafyddWDLewis](#)  
Mai 8

Diwrnod agored da iawn yn fferm Tangraig Silian. Diolch am y croeso [@Daicharles](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd  
[@Clonc360](#) neges  
[@Ardyfeic2015](#)  
Mai 31

Wedi cyrraedd nol yn Llanybydder. Diolch i bawb am y gefnogaeth drwy'r wythnos.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

# Pwy yw pwy?

# Beth yw beth?

## Golygydd:

Gorffennaf a Medi Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855  
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis,  
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349

Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590  
e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

## Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001

Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922

Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies

Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507

Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238

Llambod Janet Evans, Haulfryn 422856

Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407

Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325

Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218

Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239

Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257

Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

## Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349  
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk

Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855

Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambod 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhyweth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu eostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Siprys

## Achub Pantycelyn

Rwy'n sgrifennu hwn yn dilyn y newyddion fod Prifysgol Aberystwyth wedi addo cadw darpariaeth preswyl ar gyfer myfyrwyr Cymraeg a diogelu dyfodol Neuadd Pantycelyn. Ond annhebygol y byddai Cyngor y Brifysgol wedi gweld yr angen na gwneud yr addewid oni bai am ymgyrch 'Achub Pantycelyn' y myfyrwyr. Roedd dynnaid o fyfyrwyr wedi meddiannu'r Neuadd wedi i'r lle gau ar ddiwedd tymor, ac roedd hi'n ddifyr dilyn eu hynt a rhannu'u brwdfrydedd ar y cyfryngau cymdeithasol.

Yn ogystal â brwdfrydedd y myfyrwyr, rhaid diolch hefyd i'r ymgyrchwyr profiadol a chwaraeodd eu rhan. (Mae 'ymgyrchwyr profiadol' yn swnio'n fwy caredig nac 'ymgyrchwyr hŷn', mae'n siŵr!) Aeth Emyr Llywelyn, Ffred Ffrancis a Cen Llwyd i Bantycelyn ac aros dros nos ar lawr y Neuadd er mwyn cefnogi'r myfyrwyr. Rwy'n gwybod i eraill hefyd alw heibio, cefnogi, cynghori a chydletya. Cofiaf wyllo rhaglen ddogfen am Dryweryn ac Emyr Llew yn amlwg yn siomedig am y diffyg arweiniad a chefnogaeth a ddangosai'r Cymry hŷn a blaenllaw ar y pryd, na fydden nhw wedi gallu arwain y ffordd a gwneud safiad yn erbyn anghyfiawnder y sefyllfa. Ond nid geiriau gwag oedd rhain; diolch iddo fe am fod yn esiampl.

Yn ein cymunedau, yn ein cymdeithasau a'n clybiau a'n heglwysi, y gamp yw cael y balans yn iawn rhwng arweiniad, profiad a doethineb y to hŷn, a gadael i'r to iau gael y rhyddid i ddysgu a magu profiad a gwneud eu camgymeriadau'u hunain.

Mae ymgyrch Achub Pantycelyn hefyd yn wers i ni ei bod hi'n bosib ymgyrchu'n urddasol i warchod ein cymunedau. Nid culni na hiliaeth, nid casineb na diffyg cydweithio â phobol o ieithoedd ac o gefndiroedd eraill yw gweledigaeth a bwriad Neuadd Pantycelyn; yn hytrach, gwarchod y pethau pwysig sy'n ein clymu ynghyd ac yn ein gwneud yn genedl. A dyna yw Clonc, dybiwn i - papur Cymraeg a rannwn fel Cymry Cymraeg (neu o ba bynnag genedl sydd yn gallu'r iaith) sy'n ymfalchïo yn ein gweithgareddau a'n diwylliant.

Cloncen

# O'r Cynulliad

gan Elin Jones AC



Braf yw cael adrodd yn y golofn hon ar waith caled yn dwyn ffrwyth – ac yn digwydd bod mae sawl peth i'w ddathlu gyda'i gilydd y mis yma!

Yn Aberteifi, mae'r daith o ailagor y castell wedi bod yn siwrne hir. Mae gymaint o bobl wedi cyfrannu – Ymddiriedolaeth Cadwgan, y Cyngor Sir a'r Cyngor Tre, pawb a fu ynghlwm â'r ceisiadau grantiau, a staff a gwirfoddolwyr. Braint oedd cael bod yn yr agoriad swyddogol i weld yr holl ymdrech wedi dwyn ffrwyth. Bydd yn ffocws ychwanegol i fywyd y dre, ac yn atyniad i ymwelwyr.

Hefyd yn ardal Aberteifi daeth cam pwysig gyda chynllun yr ysbyty, wrth i'r Gweinidog Iechyd gymeradwyo'r prosiect a rhyddhau'r £1.2 miliwn cyntaf o gyllid. Mae gen i gonsyrn o hyd, wrth gwrs, y dylid sicrhau fod gan yr adeilad newydd y gallu i ddarparu gwelyau, ond mae pobl yr ardal wedi disgwyl yn hir iawn am y buddsoddiad yma, ac rwy'n falch o weld y cam yma yn digwydd. Da hefyd yw medru derbyn gwasanaeth ffôn symudol 4G yn y dre – y lle cynta yng Ngheredigion lle mae hyn yn bosib. Daeth hyn gyda chymorth buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru o dan gynllun Ardal Twf Lleol Dyffryn Teifi. Mae'r dechnoleg cyfathrebu ddiwedddara yn bwysig i'n sir, a byddaf yn parhau i bwysu ar y cwmnïau i wella'r ardaloedd o dderbyniad gwael, a datgan amserlen o ran uwchraddio i 4G.

Daeth newyddion da hefyd o ran trafndiaeth. Wedi cyfnod o lobïo gen i a gan fudiad Traws Link Cymru, penderfynodd y Gweinidog i gomisiynu astudiaeth gychwynol o'r posibilïad i ailagor y linell rheilffordd rhwng Aberystwyth, Tregaron, Llambod a Chaerfyrddin. Dyma'r tro cyntaf ers i'r linell gau yn y 60au i unrhyw lywodraeth i roi adnoddau tu ôl i'r posibilïad o'i ailagor.

Llongyfarchiadau gwresog i fudiad Traws Link felly, ac hefyd i griw ymgyrchu arall – sef myfyrwyr Pantycelyn. Wedi cyfnod o ansicrwydd, daethpwyd i gytundeb rhwng awdurdodau Prifysgol Aberystwyth ac ymgyrchwyr dros y neuadd, a fydd yn sicrhau ymrwymiad y Brifysgol dros y blynyddoedd i ddod i ddarparu profiad unigryw i fyfyrwyr cyfrwng-Cymraeg. Mae hyn mor bwysig i Aberystwyth fel sefydliad, ac i genedlaethau o fyfyrwyr y dyfodol.

# Gohebiaeth



## Achau

Tybed a fydddech yn gallu fy nghynorthwyo. Rwyf yn ymchwilio fy nghoeden teulu ac wedi dod ar draws dau enw sef Daniel Davies yn wreiddiol o ardal Gartheli a fu farw yn 1982 yn 84 oed ac yn byw yn Sarnau Gwynion Llanarth. Fe'i claddwyd gyda'i fam Elizabeth Davies ym mynwent Eglwys Gartheli. Yr ail enw yw ei nith Elizabeth Ann Davies.

Cysylltwch drwy e-bost: Elan Evans -elan57@btinternet.com

## Atgofion

Mae gen i frith gof pan o'n i'n ddisgybl ysgol i mi fod yn rhan o gyngerdd i ddathlu Taith y Mimosa i Batagonia yn Neuadd Fictoria Llanbed. Ai'r flwyddyn oedd 1965 pan o'n i'n 15 oed? Oes gan unrhyw un o ddarlennwyr Clonc atgofion o hyn neu raglen yn cofnodi'r cyngerdd tybed? Balch fuaswn o unrhyw wybodaeth. Gallwch fy e bostio ar rheithordytrefor@hotmail.co.uk.

Diolch - Ann Evans Mile End, Llanbed gynt

**TEIARS**  
**HUW LEWIS**  
  
**TYRES**

**HUWLEWISTYRES.COM**  
LLANBEDR PONT STEFFAN  
**01570 42221**


**Weldio D & W Welding**

**01570481153 / 07915543623**

Caerwenog,  
Penffordd,  
Llanybydder,  
Ceredigion.  
SA40 9XG

**Darparu gathau a rheiliau  
haearn ac hefyd eich holl  
waith weldio ac atgyweirio**

**Mwnici ffwnci**

Brodweithio  
a Phrintio Dillad.  
Darparu  
Dillad Gwaith  
a Hamdden.

**Sioned Green  
a Mared Jones**  
Nantgwyn,  
Heol Llanfair  
Llambed  
**01570 423135**  
07811917799 /  
07968821035  
mwniciffwnci@hotmail.com



**Gwasanaethau Coed  
Teifi  
Tree Services**



Pob math o waith ar goed  
Torri cloddiau \* Plygu cloddiau  
Wedi yswirio'n llawn  
Dyfynbris am ddim  
*Coed tân ar werth*

**Lyn Davies**  
**01239 851001 / 07796 682448**

Sefydlwyd 1797

**D. Lloyd a'i Feibion**  
Glanrwyth, Pumsaint,  
Ffôn: 01558 650209 a 650451,  
Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed  
a nwyddau adeiladu  
a ffensio o bob math  
Glo caled a glo meddal  
o'r ansawdd gorau**

# Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk



## GORFFENNAF

- 2 Noson Goffi a Barbeciw blynyddol Eglwys St Luc Llanllwni i ddechrau am 7.30yh.  
3 Noson i Lansio Llyfr Picton Jones, Drefach 'Plu yn fy nghap' am 7.00y.h. yn Festri Brondeifi, Llambled. Croeso cynnes i bawb.  
4 Corisma, Cacen a Chân - Grêt Welsh Bêc Off! Cae Canolfan Gymunedol Cwmann am 2.00yp.  
10 Ras Cwmann 5. Plant 6.30 ac oedolion 7.30 y.h. ar gae'r pentref.  
10 Helfa Drysor CFfl Cwmann.  
11 Diwrnod Hwyl ar gae Chwarae Llanllwni  
11 Mabolgampau Blynyddol Pentref Cwrtnewydd.  
12 Helfa Drysor ar gae Chwarae Llanllwni.  
16 Ras Hwyaid Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion, Glanwern, Felin-fach am 1.00y.p.  
17 Helfa Drysor Eglwys Llanwneog rhwng 6 - 7y.h. Dechrau o'r eglwys.  
18 Cneifio Llambled ar fferm Capeli i ddechrau am 8.30y.b.  
25 Ffair Fwyd Llambled ar dir Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Llambled.  
26 Ras Hwyaid yn Llanfair.

## AWST

- 1 Carnifal Llanbed. Thema: Cartŵns.  
8 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant ac adloniant nos gyda Newshan.  
9 Cŵr Meibion Blaenporth yn Eglwys Llanwenog 7.30y.h.  
14 Sioe Amaethyddol Llanbed.  
15 Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog ar gaeau Glwydwern gydag Eisteddfod Ddwl yn dechrau am 8.00y.h. ym mhabel y sioe.  
29 a 31 Eisteddfod Rhys Thomas James Llanbed.  
31 Sioe Pentref Llanfair.  
31 Sioe a Threialon Llanllwni.

## MEDI

- 1-3 Cynhadledd Ddwyieithog Flynyddol Adran Genhadol Chwiorydd Bedyddwyr Cymru (Senana) yn y Drindod Dewi Sant Llambled.  
4-6 Penwythnos Preswyl Merched y Wawr yn Ngholeg Prifysgol y Drindod Dewi Sant Llambled.  
6 Dathlu 175 Capel Bethel Parcyrrhos. Cerdded o Lanrhyd am 1.30yp.  
11 Noson yn Nghwmni Clive Edwards yn Tafarn y Talardd am 8y.  
Tocynnau: Annwen Evans 07971 816842 Carys Jones 01559 395 382.  
12 Ffair Ram ar gaeau pentref Cwmann.  
16 Cyfarfodydd Blynyddol Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru yn Aberduar am 1.30 a 5.30 o'r gloch.  
17 Oedfa Eciwmenaid yn Shiloh Llambled am 7.  
21 Cyfarfod Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Felinfach am 7.00y.h.  
23 Meistri'r Dartiau gyda Gary Anderson, Tony O'Shea, Michael Smith a Darryl Fitton yn Neuadd Fictoria, Llanbed. Tocynnau: 01570 423683.  
26 Noson yng nghwmni "Bois ar Wasgar" ac aelodau CFfl Llanllwni yn y Llew Du Llanybydder. Elw tuag at Gymdeithas Diabetes Cymru.  
26 Trip Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi.  
28 Cwrdd Diolchgarwch Noddfa Llambled am 7 o'r gloch.

## HYDREF

- 3 Cynhadledd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn y Pafiliwn Rhyngwladol, Llanelwedd. Cofrestru ar [www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org](http://www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org)  
9, 16 a 17 Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gaerfryddin yn Neuadd San Pedr.  
14 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrrhos am 7.00y.h. gyda Gwyn Elfyn.  
16 Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach.  
23 Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion yn cynnal Cinio Cig Eidion yn Llanina, Llanarth.  
29 a 31 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.  
31 Eisteddfod Gadeiriol, Pumsaint. Manylion pellach wrth Mair Williams ar 01558650292.

## TACHWEDD

- 21 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yng Nghanolfan Celfyddydau, Aberystwyth.

## RHAGFYR

- 5 Cyngerdd gan Bois y Frenni am 7.30y.h. yn Neuadd y Coroniad Pumsaint. Manylion pellach 01558 685439.

# Clwb Clonc

## Gorffennaf

- £50 rhif 508 :  
Heather Williams,  
Maesfflur, Llambled.  
£50 rhif 353 :  
Carys Lewis,  
Tŷ Cerrig, Cwmann.  
£25 rhif 470 :  
Heini Thomas,  
Tŷ Hathren, Cwmann  
£25 rhif 456 :  
Glenys Thomas,  
Llys Teifi, Llanybydder.  
£20 rhif 255 :  
Aneurin Jones,  
Hathren, Llambled.  
£20 rhif 297 :  
Emyr Jones,  
Meysydd, Drefach.  
£15 rhif 166 :  
Marna Evans,  
Bwthyn y Dolau, Llanybydder.  
£15 rhif 233 :  
Alun James,  
Telynfa, Llanybydder.  
£10 rhif 346 :  
Lynn Jones,  
Dol-hyfyrd, Cellan.  
£10 rhif 478 :  
Iona Warmington,  
Falkland, Llambled.  
£10 rhif 361 :  
Sheila Lewis,  
Brynawel, Cwmann.  
£10 rhif 310 :  
Vernon Jones,  
40A Stryd Fawr, Llambled.  
£10 rhif 420 :  
Lyn Rees,  
Tanrhos, Cwrtnewydd.  
£10 rhif 407 :  
Tommy Price,  
Gelliwrol, Cwmann.  
£5 rhif 94 :  
Mary Davies,  
Awel Teifi, Pentrebach,  
£5 rhif 442 :  
Hedydd Thomas,  
Gilfachwen, Llambled,

# Pencarreg

## Arholiad Piano

Llongyfarchiadau i Carys Ann Davies, Coed y Llyn ar basio ei arholiad theori gradd 2 yn ystod yr wythnosau diwethaf yma. Da iawn ti Carys a dalia ati gyda'r gwaith da.

**Cefn Hafod**  
**Gorsgoch**  
 Cyri bob nos Wener,  
 £6 y pen  
 Prydiau bwyd ar gael drwy'r  
 wythnos  
 Nos Lun— Nos Sadwrn  
 Bwyd Cartref a Chwrrw da.  
 Croeso cynnes i bawb!  
 01570 434 238

**W.D. Lewis**  
**a'i Fab**  
 Masnachwyr a Masnachwyr  
 Agricultural Machinery  
 Melin Mark Lane Mill  
 Llanbedr Pont Steffan  
 Ceredigion SA48 7AG  
 Tel: 01570 422540  
 Fax: 01570 423644  
 www.wdlewislewis.co.uk  
 Hefyd yn  
 Broneb Stores  
 Pumsaint, Llanwrda  
 Tel: 01558 650215



**Cegin Coedlannau**  
 'Bwyd cartref ar gyfer  
 pob achlysur'  
 \* Cacenau pen-blwydd gyda llun  
 (ffotograff)  
 \* Bwffe mawr neu fach  
 \* Dantethion i de  
 \* Pwdinau  
 \* Arlwyio ar gyfer pob achlysur  
**Sirian Davies, Coedlannau**  
**Fach, Cwrtnewydd,**  
**01570 434 243**  
**07815 962 045**



**Alec Page**  
**Gof**  
  
 Gwaith metal o safon  
 i'r tŷ a'r ardd.  
 Dewch i drafod eich syniadau.  
 Yr Efail, Barley Mow,  
 Llambod.  
**01570 423955**  
 www.alecpageblacksmith.co.uk

**WILLIAMS**  
**& BOURNE**  
 CYFREITHWYR,  
 COMISIYNNWYR LLWON  
 Trosglwyddiadau a phob  
 gwasanaeth cyfreithiol.  
 Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.  
**1 Sgwâr Harford,**  
**Llambod**  
**01570 422206 01570423540**  
 A thrwy apwyntiadau yn Nhregeron, Llanybydder,  
 Castell Newydd Emlyn a Chaeffyrddin.

# Silian



Mewn Digwyddiad Defaid a gynhaliwyd yn Nhanygraig, Silian ar yr 2il Mehefin, roedd Richard Jones, sy'n gigydd gyda Dunbia, Llanybydder yn dangos y gwahaniaeth mewn toriadau cig oen Texels a Suffolk i David Charles ac Eryl Evans, ac Andrew Williams.



Gethin Morgan, Bro'r Dderi yn ennill cystadleueth barnu merlod Cymreig dan 26 oed.



Cystadleuaeth gwisgo i fyny, Daniel, Manon a Meinir, Bro'r Dderi(1af).



Carys Mair Jones a Heini Thomas 1af yn her môr ladron rali sir Ceredigion y CFfi 2015


## C.F.F.I. Bro'r Dderi

Mis Mai a mis Mehefin, misoedd arholiadau ac i aelodau C.F.F.I. Ceredigion, misoedd paratoi at y Rali. Gall y ddau darfu ar draws ei gilydd, ond y gamp yw cael cydbwysedd rhwng y ddau.

Er mai ond rhai o'r gweithgareddau y buom yn cystadlu ynddynt eleni, cawsom dipyn o hwyl yn paratoi ac yn cystadlu yn Llanddewi. Thema'r diwrnod oedd 'Y Moroedd Mawr'. Yn y bore fe goginiodd Lisa Evans ac Owain Jacobs pryd fyddai'n plesio unrhyw gapten. Beirniadodd Llŷr Pugh y gwartheg Charolais am y tro cyntaf a chafodd dipyn o hwyl arni wrth gael marciau llawn yn y gosod. Carys Jones a Heini Thomas fu'n cystadlu yn Her y Môr-ladron a chipio'r wobwr gyntaf gan arddangos eu sgiliau ysgrifennu a chreffft. Yn y prynhawn cafodd un o'n harweinyddion, Meinir Douglas ei gwisgo fel parot gan Manon Jones a Daniel Evans a hwythau hefyd yn cipio'r wobwr gyntaf. Rhys Douglas oedd ein cneifiwr dan 21 oed gan gneifio ei ffordd i'r ail wobwr. Y tri feirniadodd y Merlod Adran A oedd Owain Jacobs, Delyth Evans a Gethin Morgan a Gethin ddaeth i'r brig dan 26 oed. Mwynhaodd Elin Pugh a

Bryn Thomas gystadlu yn yr Helfa Drysor o amgylch pentref Llanddewi Brefi. Y gystadleuaeth olaf i ni oedd Arddangosfa'r Prif Gylch - Y Moroedd Mawr a'r môr-ladron oedd Rhys Douglas, Ryan Doughty, Hedydd Davies, Dewi Uridge, Aron Dafydd, Nia Gwyther, Bryn Thomas, Nathan Plant, Owen Heath, Iestyn Owens ac Elliw Dafydd gyda Sioned Douglas yng ngofal y gerddoriaeth. Cipiodd y môr-ladron yr aur a chario'r wobwr yn ôl i'r Dderi. Pob lwc i'r bedair cystadleuaeth fydd yn mynd ar fordaith i gystadlu yn y Sioe Fawr ym mis Gorffennaf.

Mae wedi bod yn fis corfforol iawn i ni gyda chystadlaethau Chwaraeon a Rygbi'r Sir. Roedd gennym dimoedd 'dodge ball', rownderi a chriced cyflym a ddaeth yn drydydd. Cynhaliwyd y gystadleuaeth rygbi yng Nghlwb Llambod ac roedd tîm heini o ferched y clwb ynghyd â merched Mydroilyn yn cystadlu yng nghystadleuaeth rygbi i ferched. Cipiodd y merched yr ail wobwr. Hefyd bu'r bois yn llwyddiannus a chafodd Rhys Douglas, Brynmor Jones a Gareth Morgan Isaac eu dewis i fod yn rhan o dîm Ceredigion yn y Sioe Fawr. Pob lwc i bawb!



Rhys Douglas yn cael ail yn y gystadleuaeth cneifio dan 21 oed.

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

## Côr Cwmann

Mae profiadau pleserus yn dod ar draws aelodau Côr Cwmann ambell dro, a dyna fu hanes y gyngerdd yn neuadd Eglwys Llanfair Clydogau nos Sadwrn 13eg o Fehefin.

Cawsom ein gwahodd gan Goedwig Gymunedol Longwood i gyflwyno rhaglen Gymreig ei naws i gynhadledd o bobl oedd yn ymddiddori mewn fforestydd a choedydd cynaliadwy. Clod i Goedwig Gymunedol Longwood ar ddenu cynrychiolwyr o wledydd ar draws y byd i ardal mor wledig â Betws Bledrws a Llangybi i astudio y fenter di-elw hon.

Mae'n werth nodi y gwledydd oedd yn cael eu cynrychioli yma yng Ngheredigion sef Bolivia, Cambodia, Cameroon, C A R, Congo-Brazza, Cote D'Ivoire, D R C, Ecuador, Ghana, Guatemala, Guyana, Honduras, Indonesia, Laos, Liberia, Mexico, Myanmar, Peru, Thailand a Vietnam. Mae'r 49 o ymwelwyr yn ymweld â gwledydd Deyrnas Unedig am chwech wythnos.

Bu rhediad y noson yn hollol wahanol i'r arferol gyda chyfarchiad unigol gan y cynadleddwyr, o'r ugain gwlad, a'r cyfarchion hynny yn wled i'r llygad. Diolch i Mr Cyril Davies am arwain y noson yn ddeheuig iawn drwy gyfathrebu â dwy ferch oedd yn cyfieithu, un yn Ffrangeg a'r llall yn Sbaeneg.

Roedd y rhan fwyaf o'r cynadleddwyr yn gweithio i lywodraeth eu gwledydd, a beth oedd yn syndod bod cymaint o ferched yn gweithio yn y diwydiant coedwigaeth.

Pinacl y noson oedd bod cyfran o ymwelwyr Cyfandir Affrica wedi ymuno â Chôr Cwmann i ganu'r Affrican Prayer. Mae wastod yn wled i'r llygad eu gweld yn dawnsio a chanu. Noson i'w chofio yn wir.

## Corisma

Mae'r merched wrthi yn ddiwyd yn trefnu ar gyfer prynhawn o Corisma Cacen a Chân - y te parti ar Orffennaf y 4ydd lan yn y ganolfan yng Nghwmmann.

Erbyn hyn mae 8 deuawd o wahanol enwadau yn y pentref wedi derbyn yr her i gystadlu a Sian Jenkins Castell yn edrych ymlaen i feirniadu. Y gamp fydd i gyflwyno te i ddau allan o gynhwysion fydd yn cael eu cyflwyno ar y dydd i'r cystadleuwyr. Mi fydd y côr yn canu yn ystod y prynhawn ac mi fydd yna de a danteithion lu i bawb. Mae tocynnau ar werth wrth aelodau'r côr felly dewch i ymuno â ni yn y fenter newydd yma - Diddorol fydd gweld siwt fydd y Bec Off Cymreig cyntaf yma yn dod i fwcwl. Ta siwt fydd hi 'rydym yn gobeithio codi swm sylweddol i gronfa elusen

Alzheimers.

Son am gynnwrf! Mae Corisma yn recordio CD! 'Rydym yn ei chanol hi nawr - 8 cân wedi eu recordio a thua 4 i fynd. Erbyn i chi ddarllen yr hanes yma mi fydd y Cryno Ddisg yn cael ei pharatoi gan Eifion "Bodyshaker". Ef sy'n gyfrifol am drefnu'r profiad unigryw yma yn hanes y côr. Chwarae teg i ein

harweinydd dawnus (a mentrus iawn!) Carys Lewis mae wedi gweithio'n galed tu hwnt i sicrhau ein bod i gyd yn canu pob nodyn yn gywir ac wrth gwrs yn y lle iawn! 'Rydym fel aelodau yn diolch iddi am ei ffydd ynom i gyrraedd lefel digon safonol i allu cael y profiad unigryw yma!

Erbyn lansio'r CD mi fydd rhai o ddarllenwyr trefnus Clonc wrthi efallai yn trefnu rhestr siopa Nadolig felly beth am roi CD Corisma lawr gwrthgyfer a sawl person ar y rhestr! Gyda chaneuon fel Anfonaf Angel, Hail Holy Queen a Pererin Wyf mae yma ddigon o amrywiaeth i blesio pawb.

Gyda llaw 'rydym yn recordio yn Neuadd Eglwys Llanfair - ydych chi erioed wedi bod yno? Mae'n neuadd gwerth ei gweld - ffenestri a lloriau newydd - paent gwyrdd modern iawn - a chyfleusterau gwych i neud paned hanner ffordd drwy'r recordio. Ac am sŵn pert wrth ganu - Eifion wnaeth ddewis y lleoliad oherwydd ei fod yn hoffi'r acwstics yno. Llongyfarchiadau i bwyllgor pentref Llanfair am ei waith caled yn ail drefnu'r Neuadd i safon mor uchel.

Na ddigon o newyddion am nawr - ond cofiwch y rhestr siopa 'Dolig yna!

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Glyndwr a Margaret, Glyn, Cwmann ar ddod yn dadcu a mamgu unwaith eto. Ganwyd Gruffydd Llyr i Rhian Eleri a Ben yn yr Alban. Mae Cadell Teifi yn browd iawn o'i frawd bach.

## Cydymdeimlo

Estynnwn gydymdeimlad â Mr Dai Herbert a Berian Dolfor ar farwolaeth brawd ac Wncwl Mr Jim Herberts, Tregaron.

## Ar wellhad

Danfwnn wellhad buan a dymuniadau gorau i'r canlynol: Ann Lewis, Hillside; Rhys Jones, Tanybryn; Ann Herbert, Cysgod y Coed; Elonwy Davies, Hafod Lon a Gareth Jones, Trosnant. Da deall ei bod i gyd adref o'r ysbyty.

Hefyd, pob dymuniad da i Geinor Jones, Glyn, Cwmann sydd wedi cael llawdriniaeth yn ysbyty Bronglais yn ddiweddar. Gobeithio byddi di'n teimlo'n well yn fuan.

## Cymorth Cristnogol

Cyfanswm y casgliad a wnaed ym mis Mai yn £1,182.37. Rhagorol!



Diwrnod Mabolgampau Ysgol Carreg Hirfaen.



Bu plant Cylch Meithrin Coedmor yn mwynhau diwrnod 'Gŵyl Meithrin' yn Parc Fferm Ffantasi gyda Dewin, Doti a'r Brodyr Gregory.

Ein diolch i'r casglwyr am roi o'u hamser a diolch i'r rhoddwyr am lu haelioni eleni eto.

## Ras Cwmann 5

Ar nos wener y 10fed o Orffennaf yn dilyn Ffair haf yr ysgol bydd ras hwyl i blant ac oedolion yn dechrau am 6.30 a 7.30. Rhowch eich esgidiau rhedeg ymlaen a dewch i gefnogi'r pentref!

## Neuadd Sant Iago

Clwb 125 - Mis Mehefin  
1. Michael Miah, Saya Villa, Cwmann, 44. 2. Angharad Price, Brynderi, Cwmann, 33. 3. Dilys Godfrey, 41 Heol Hathren, Cwmann, 81. 4. Ruth Jones, Heol-y-Maes, Pencarreg, 20. 5. S. Mason, Treherbert, Cwmann, 130. 6. Dai Herbert, Dolfor, Cwmann, 84. 7. Ivonne Davies, Cwmbrwyn, Pencader, 123.

## C.Ff.I. Cwmann

Ar ôl holl fwrlwm o'r mis cynt efo'r rali, roedd hi'n amser i'r clwb ddathlu wrth i ni gynnal ein cinio blyneddol ar ddiwedd mis Mai yng ngwesty Ty Glyn. Fe gawsom noswaith o hwyl a sbri gan glywed storïau o'r



Llongyfarchiadau i Beca Mai Roberts, Pengelli, Parcyrhos, Cwmann ar ei llwyddiant yng nghystadlaethau Athletau Ysgolion Dyfed yn ddiweddar. Daeth Beca i'r brig yn y naid hir ac yn drydydd yn y ras 800 metr. Da iawn ti!

flwyddyn sydd wedi bod, wrth ein gwestai gwadd, Miss Gwawr Lewis is-gadeiryddes y sir. Hefyd fe wnaethom bleidleiso am ein aelodau hŷn ac iau'r flwyddyn, efo Carys Thomas yn ennill yr hyn a Mannon Williams yr iau, da iawn chi ferched. Ar ddiwedd y mis fe gawsom noswaith o gneifio gyda llywydd y clwb am eleni Mrs Meleri Jones, diolch i ti a'r teulu am y croeso gawsom gyda chi yn Ffos Y Ffin. Dyddiadau arall sydd ymlaen efo'r clwb ym mis Gorffennaf i chi roi yn eich dyddiadur yw ein helfa drysor sydd yn dechrau am 6y.h o'r rookery ar y 10fed o'r mis, a hefyd ein cyfarfod blyneddol ar y 24ain o'r mis yn neuadd St.Iago, Cwmann am 7.30y.h.

## Ysgol Carreg Hirfaen

Cafwyd diwrnod o fabolgampau rhagorol ar ddiwrnod braf ar gae Pentref Cwmann ar y 10fed o Fehefin efo Tai Teifi a Cothi yn cystadlu'n frwd am dlws y Tŷ gorau. Yn dilyn prynhawn o gystadlu agos a rasio o safon uchel, Teifi ddaeth allan ar y brig o 6 pwynt yn unig.

Enillwyr y medalau am y pwyntiau uchaf yn y Cyfnod Sylfaen oedd Ellie Gregson, Joshua Morris, Charlie Bollen a Lucas Rodriguez.

# Cwmann

Yng Nghyfnod Allweddol 2 yr enillwyr oedd Marged Jones, Seren James a Dafydd Jones. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd.

Bu nifer o ddisgyblion bl 3 a 4 yn cystadlu yng Ngŵyl Criced 50/50 yr Urdd ar gaeau Llandysul yn ddiweddar. Fe wnaeth y garfan gystadlu'n frwd gan ennill dwy gêm a cholli un. Roedd llawer o'r disgyblion wedi sgorio'n uchel. Da iawn chi!!

Dymunwn yn dda i ddisgyblion blwyddyn 6 a fydd ym mynd i Ysgol Bro Pedr ym mis Medi sef Scott Griffiths, Dafydd Jones, Daniel Aled Davies, Harvey Bollen, Cai Hughes, Gabriel Faulkner, Sophie Jones, Charlotte Howell, Gwennan Rowcliffe, Lowri Fflur Davies, Undeg Jones ac Anest Edwards. Byddwn yn gweld eich eisïau yn fawr iawn a diolch yn fawr iawn i chi am eich holl ymroddiad i fywyd Ysgol Carreg Hirfaen.

Yn ystod y tymor diwethaf bu unigolion o'r ysgol yn brysur yn ymarfer ar gyfer cyngerdd y Proms. Roedd Mali, Undeg a Gwennan yn chwarae offerynnau a Lowri ac Undeg yn rhan o'r côr. Bu llawer o waith dysgu ac ymarfer, ac roedd yn bleser eu gweld ar lwyfan fawr y Theatr yn rhan o gerddorfa a chôr Ieuencid Sir Gâr.

Croesawodd Mrs Jones, rhieni a phlant y Cylch Meithrin i mewn i'r dosbarth derbyn yn ystod y tymor ar gyfer sesiynau Iaith a Chwarae. Bu'r plant a'u rhieni yn gweithio, chwarae a chael hwyl.

Cynhelir ein Ffair Haf eleni ar b'nawn dydd Gwener, Gorffennaf 10fed. Bydd y pêl droed yn cychwyn am 3yp a'r Ffair Haf am 4yp. Bydd amrywiaeth o stondinau a BBQ ar gael. Croeso cynnes i bawb.

## Bethel Parcyrhos

Bydd cwrdd y dathlu ar Sul medi 6ed gan ddechrau yn Glanrhyd Parcyrhos am 1-30 yp. Bydd pererindod yn dilyn i Fethel gyda oedfa i gofio, dathlu ac ystyried gan aelodau a phlant yr Eglwys. Croeso i ymuno â ni yn y dathliad.

## Diolch

Dymuna Ann, 4 Cysgod-Y-Coed, ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd yn dilyn ei llawdriniaeth diweddar.

## Ffair Ram

Cynhelir Ffair Ram ar gae pentref Cwmann ar yr 12fed o Fedi. Y llywyddion eleni fydd Mr a Mrs Dafydd Jones, Ffosyffin. Dylid mynd â defaid a nwyddau rhwng 10 a 11.30 y bore. Cysylltwch ag Eiddig Jones 422655 neu Danny Davies 423692 am fwy o wybodaeth. Gellir lawrlwytho'r rhaglen o wefan www.ffairram.btck.co.uk Cofiwch ddod i gefnogi ac i fwynhau'r diwrnod.

## Eglwys Sant Luc

Bydd Noson Goffi a Barbeciw blynyddol yr Eglwys ar nos Iau, Gorffennaf 2il 2015 i ddechrau am 7.30yh. Croeso cynnes i bawb.

## Ysgol Llanllwni

Aeth aelodau'r Urdd ar eu trip blynyddol i "Ar y Bêl" ger Ffosyffin. Cafodd pawb amser da yn mwynhau ar yr adnoddau a chael swper yno cyn troi am adre. Bu rhai plant yn cystadlu yn nhwrnament pêl-droed yn Llanfihangel-ar arth. Roedd yn brofiad newydd i rai o'r tîm ieuengaf ac fe fwynhaodd pawb mas draw. Hoffwn ddiolch i Gwmni Statcraft am eu rhodd o £869.16 tuag at brynu adnoddau TGCh. Diolch yn fawr.

Daeth Miss. Mattie Evans o Ysgol Bro Pedr i'r ysgol i roi gwers wyddonol i'r Adran Iau. Cawsant hwyl yn gwneud arbroffion.

Bu rhai plant yn cystadlu yn Noson Hwyl "Cadw'n Sych" yn Ysgol Llanwenog lle cawsant llawer o hwyl.

Erbyn i'r rhifyn yma ymddangos byddwn wedi cael ein mabolgampau ysgol ac wedi bod ym mabolgampau ysgolion Cylch Pencader yn ysgol Cae'r Felin. Rydyn wedi cael sawl gwahoddiad o ysgolion lleol i ymuno mewn chwaraeon, felly byddwn yn ceisio eu cefnogi. Hefyd, bydd yr Adran Iau yn mynd i Ddiwrnod Hwyl yr Urdd yn ysgol Bro Pedr.

Edrychwn ymlaen i'n trip ysgol pan fyddwn yn mynd i "Clerkenhill Farm" yn Sir Benfro ar Ddydd Mercher ola'r tymor. Mae croeso i bawb ymuno yn ein Diwrnod o Hwyl a gynhelir ar Gae'r Pentref ar brynhawn Dydd Sadwrn, Gorffennaf 1leg. Bydd gennym garnifal, mabolgampau, tynnu rhaff, stondinau, lluniaeth a mw-y- rhywbeth i bawb!! Ar y diwrnod canlynol sef Dydd Sul, Gorffennaf 12fed bydd gennym Helfa Drysor a fydd yn dechrau o Talardd am 3.30. Dewch i ymuno yn yr hwyl. Ar ddiwedd y tymor byddwn yn ffarwelio â Blwyddyn 6 sef Owain, Megan, Rowen ac Abraham. Maent wedi cael cyfleoedd gwych i gyfarwyddo â'r ysgol Uwchradd trwy'r cynllun Pontio. Pob lwc i chi'ch pedwar a chofiwch ddod nôl i'n gweld. Byddwn hefyd yn ffarwelio â Miss Donna Jones, cynorthwywraig yn yr Adran Iau. Byddwn yn gweld ei heisïau yn fawr a diolch iddi am ei chydweithrediad yn ystod ei hamser yn Ysgol Llanllwni. Dymunwn yn dda iddi ar ei phriodas ag Arwel ym mis Awst ac yn ei swydd newydd. Dymunwn wyliau haf hapus i ddarlennwyr Clonc.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Mehefin: 1af - £10 – Mrs. Gloria Hughes, Waunfawr, Llanllwni; 2ail - £5 – Nigel Evans, Brynhedd, Llanllwni; 3ydd - £5 – Alice James, Llanerch, Maesycreigiau.

# Llanllwni

## Diolch

Dymunia Melvyn, Morfudd a theulu Llys-y-Wawr, ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth ar ddiwrnod Taith Tractorau a gynhaliwyd yn Mis Hydref i godi arian tuag at Ambiwylans Awyr Cymru. Codwyd £1430.00 tuag at yr achos teilwng iawn. Diolch i Gerddi Norwood am y lluniaeth a ddarparwyd ac yn Talardd am y bwyd.

A diolch yn fawr iawn i bawb am yr holl roddion hael a dderbyniwyd tuag at yr achos.

## C.Ff.I. Llanllwni

Ar y 3ydd o Fehefin aeth nifer o aelodau'r clwb i Noson Chwaraeon y Sir yn Llandeilo, i chwarae criced a hoci. Llongyfarchiadau i Anwen Jones, Aled Jones a Hefin Jones ar gael eu dewis i gynrychioli'r Sir i chwarae hoci yn Niwrnod Chwaraeon Cymru. Da iawn chi.

Bydd Diwrnod Hwyl Llanllwni, sydd yn cael ei drefnu ar y cyd gyda'r Clwb Ffermwyr Ifanc, yr ysgol a'r ysgol Feithrin, yn cael ei gynnal ar yr 1leg o Orffennaf, ym mharc Bryndulais. Bydd llu o weithgareddau yno o garnifal a mabolgampau i stondinau amrywiol, felly cofiwch alw draw! Bydd rhywbeth i bawb. Tua phump o'r gloch bydd yna gystadleuaeth tynnu'r gelyn ar y cae, dewch draw, bydd cyfle i bawb i gymryd rhan.

Fel clwb, hoffwn ddymuno priodas hapus i Rhian a Gwyn ar eu priodas yn ddiweddar, llongyfarchiadau i chi'ch dau. Mae Rhian wedi bod yn aelod brwdfrydig a chefnogol dros ben o'r clwb yn ystod ei blynyddoedd fel aelod. Dymunwn bob hapusrwydd i ti a Gwyn ar ddechrau cyfnod newydd yn eich bywyd, ond cofia ddod nôl atom i'r clwb yn rheolaidd!

Cofiwch am ein Sioe a Threialon ar ddydd Llun Gŵyl y Banc ym mis Awst.

## Cylch Meithrin Llanllwni

Ar ddydd Mawrth 9fed o Fehefin aeth y plantos Bach i Wyl Feithrin yn y Gerddi Botaneg. Gwnaethant fwynhau canu gyda'r brodyr Gregory a dawnsio gyda Dewyn a Doti!

Yn ystod y mis bydd plant y Cylch yn cael cyfle i gymeryd rhan ym mabolgampau'r Ysgol a mabolgampau'r Mudiad. Rydym yn edrych mlan i weld y plant yn rhedeg yn gyflym!

Rydym yn edrych ymlaen at ein trip blynyddol i Saundersfoot yn ystod y mis-gobeitho bydd yr haul yn gwenu arnom.

Mae pwyllgor y Cylch yn trefnu noson yng nghwmni Clive Edwards ar nos Wener 1leg o Fedi yn Nhafarn y Talardd. Yn anffodus mae'r tocynnau wedi gwerthu allan

ond gobeithiwn cynnal y noson yn flynyddol.

Pob lwc i Erin Evans, Einir George ac Aneurin Thomas sydd mynd i ddechrau yn yr ysgol yn mis Medi. Mae wedi bod yn bleser cael y tri yn y Cylch a bydd y staff a'r plant yn gweld eu heisïau.

Fe fydd y Cylch Meithrin yn cau ar ddydd Iau 16eg o Orffennaf dros wyliau'r haf. Ni fydd Cylch Ti a Fi ar ddydd Gwener 17eg o Orffennaf.

Bydd y Cylch yn ail agor ar Ddydd Mercher yr 2ail o Fedi.

Mwynhewch wyliau'r haf gan obeithio bydd y tywydd yn braf!!

## Cylch Ti a Fi

Cynhelir Cylch Ti a Fi bob bore Gwener am 9:30yb hyd 11:30yb yn Ysgol Llanllwni. Croeso i rieni, gofalwyr, mamgu's a tadcu's i ddod gyda'u plant i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau a chyfle i'r oedolion gael sgwrs dros paned.

## COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl  
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol  
Llambed, Heol Tregaron,  
Llambed.

☎ 01570 422955  
☎ 01570 422232

# Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

19 Stryd Fawr,  
Llambed

Oriau Agor:  
Llun - Sadwrn 12 - 9  
Sul - ar gau

## CANOLFAN ADDURNO

AA  
A

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerau, Polion a thraciau lleni, gwasanaeth torri allwedd i pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.  
3 Stryd y Bont  
Llambedr Pont Steffan  
01570 423156



Tîm Ysgol Bro Pedr a ddaeth yn drydydd yn yng Ngŵyl SALTERS' Cemeg a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yn y llun o'r chwith mae - Eleri James, Lucy Hill, Bea Casiday ac yn absennol mae Morgan George.



Cynhaliwyd y rownd derfynol o gystadleuaeth Cogydd Ifanc yr ysgol ar Fehefin 5ed. Yr enillwyr oedd – Cyntaf - Hanna Davies gyda Eleri James a Lucy Hill yn rhannu'r ail safle.



Yn y gystadleuaeth STEM (Science, Technology, Engineer and Maths) a drefnwyd gan briysgol Aberystwyth, daeth Robert Jenkins yn gyntaf, Daniel Thomas yn ail a Daniel Davies yn drydydd.



Yn y gystadleuaeth STEM (Science, Technology, Engineer and Maths) a drefnwyd gan briysgol Aberystwyth, daeth Isobel a Samantha yn gyntaf a Bea yn ail.



Marc Griffiths yn cyflwyno gwobrau i gapteiniaid ac is-gapteiniaid y Cyfnod Sylfaen yn mabolgampau Ysgol Bro Pedr.



Rhian Evans Cadeiryddes y Llywodraethwyr yn cyflwyno gwobrau i gapteiniaid ac is-gapteiniaid yr Adran Iau gyda Owen Rowcliffe a Tegan Miles yn derbyn tariannau am yr unigolion â'r marciau uchaf ym mlwyddyn 6.



Blwyddyn 5 Cothi Ysgol Bro Pedr yn gweithio yn yr ardd wylt gyda Leigh o Gyfoeth Naturiol Cymru.



Mr Clarke gyda disgyblion Canolfan y Bont ar ei ymdeoliad.

## Ysgol Iau

Pleser oedd clywed rhai o ddisgyblion blynyddoedd 3 a 4 yn siarad ar Radio Cymru am Sul y Tadau - da iawn chi Ffion, Logan, Ifan, Grace, Sara a Rhun. Rwy'n siwr eich bod wedi sbwyllo dad gan i ni eich clywed chi yn sôn am siocledi, dillad isaf, sanau, bwyd a thocynnau rygbi ar y radio! Fe wnaeth tîm pêl-droed y bechgyn a'r merched yn arbennig o dda yn nhwrmament Tregaron yn ddiweddar. Ni wnaeth y bechgyn golli gêm na gadael gôl i mewn yn eu herbyn, a gwnaeth y merched gyrraedd y rownd gyn-derfynol a cholli o drwch blewyn ar ôl cael amser ychwanegol mewn gêm gyffrous iawn. Diolch i Mr John a Mr Davies am hyfforddi ac i bawb a fu'n cludo'r plant.

Bu holl ddisgyblion yr ysgol yn gweithio yn eu tro gyda Leigh o Gyfoeth Naturiol Cymru yng ngardd wyllt yr ysgol gan fwynhau chwilio am drychfilod a chreu gemwaith allan o bren. Roedd hyn yn brofiad gwyb iddynt a diolch i Leigh am roi o'i amser. Bu blynyddoedd 1 a 2 yn siopa yn y dref am fwydydd a theganau i'w hanifeiliaid anwes fel rhan o thema'r tymor a diolch i Siop Sainsbury's a'r Siop Anifeiliaid Anwes yn y dref am roi caniatad i'r plant fynd o gwmpas a phrynu ambell eitem. Cafodd blynyddoedd 3,4,5 a 6 y cyfle i fynd draw i'r Campws hŷn i gwblhau gwersi Gwyddoniaeth a chael llawer o hwyl a sbri wrth arbrofi gyda Miss Mattie yn y labordy - diolch iddi. Fel rhan o ddatliadau T. Llew Jones bu blynyddoedd 4,5 a 6 yn gwyllo sioe "Lleud yn Olau" yn Theatr Felinfach a chael prynhawn difyr iawn yn gwyllo'r cymeriadau a greuwyd gan yr awdur enwog yn dod yn fyw o flaen eu llygaid. Cafwyd cystadleuaeth creu poster i gogyfer â Ffair Haf yr ysgol a Ryan Parsons, Brynmor Gibbons, Niah Bouvet, Owen Davies, Jessica McKay, Lisa Jones, Lucy Davis, Sioned Davies, Laura Jones a Kai Jones a ddaeth yn fuddugol - da iawn chi a gobeithio eich bod wedi mwynhau'r gwobrau!

Yng nghystadleuaeth SUMDOG Ceredigion sef cystadleuaeth i hybu sgiliau mathemategol y disgyblion daeth yr ysgol i'r brig drwy'r Sir gyda Blwyddyn 6 Arthur yn y safle cyntaf, 6 Grannell yn yr ail safle, 5 Llew yn drydydd a 5 Cothi yn pumed - ffantastig a diolch i'r plant a'r staff am eu hymroddiad. Yn ogystal gwnaeth nifer o'n disgyblion ni gyrraedd y deg gorau yng Ngheredigion fel unigolion :- Fikry 1af, Filip 2ail, Melanie 3ydd, Daniel Farr 4ydd, Skye 5ed, Klaudia K 6ed, Austin 7fed, Tomi 8fed, Esme 9fed a Justin 10fed - tipyn o gamp.

Cafodd disgyblion blwyddyn 6 yr ysgol gyfle i fynd ar gwrs preswyl i Ganolfan Awyr Agored Pentywyn a mwynhau'r gweithgareddau yno'n fawr. Diolch i bob aelod o staff a fu yn goruchwyllo yno. Daeth disgyblion o'r Cyngor Eco a rhai a fu ar daith i Gyprus o flynyddoedd 7 ac 8 i wneud gwasanaeth ar Ymgyrch Ynni sef Owain, Beca J, Elan, Lucy a Bea a diolch iddynt am roi o'u hamser i ddod atom. Roeddent wedi paratoi ffilm hefyd dan oruchwyliaeth Miss G Jones ac fe wnaeth pawb fwynhau ei wyllo yn ogystal â dysgu llawer.

Daeth cwmni "Mewn Cymeriad" i'r ysgol i gyflwyno sioe ar hanes Patagonia ac fe wnaeth holl ddisgyblion blynyddoedd 3,4 a 5 fwynhau'n fawr. Cawsant gyfle yn ystod y sioe i ymuno gyda'r actor a dysgu hanes yr ymfudo drwy ryngweithio.

Mae nifer o ddisgyblion yr ysgol wedi bod yn ymarfer yn brysur gogyfer â chyngerdd "Proms" Ceredigion - rhai yn y gerddorfa ac eraill yn y côr - da iawn chi am gynrychioli'r ysgol. Bu'r dosbarth Meithrin a Derbyn yn y Ganolfan Hamdden yn cael lawer o hwyl a sbri fel rhan o'u thema "Bownsio" a diolch i Miss Anita am drefnu.

Bu holl ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu'n frwd ym mabolgampau'r ysgol - rhedeg, taflu pwysau, clwydi, sachau, naid uchel, naid hir, ras wy a llwy. Ar ddiwedd mabolgampau'r Cyfnod Sylfaen Tŷ Pedr oedd ar y blaen gyda 87 o farciau, Dewi yn ail gyda 61 o farciau a Steffan yn y trydydd safle gyda 50 o farciau. Ar ddiwedd yr holl gystadlu tŷ Pedr oedd ar y brig gyda 178

o farciau, Dewi yn ail gyda 162 a Steffan yn y trydydd safle gyda 122 o farciau. Derbyniodd Owen Rowcliffe a Tegan Miles darian am yr unigolion â'r marciau uchaf ym mlwyddyn 6 - da iawn chi. Diolch i Gadeiryddes y Llywodraethwyr sef Mrs Rhian Evans am ei chefnogaeth ac am gyflwyno tariannau i'r capteiniaid ac is-gapteiniaid, i Marc Griffiths am gyflwyno'r canlyniadau ac i holl staff yr ysgol am baratoi'r disgyblion ac yn arbennig i Mr John a Mr Roderick am drefnu.

Gyda thristwch y ffarweliwn gyda nifer o staff y campws ar ddiwedd y tymor ac rydym yn diolch o waelod calon iddynt am eu cyfraniad gwerthfawr i'r ysgol dros y blynyddoedd ac yn dymuno'n dda iddynt i'r dyfodol sef Mrs Drina Collom, Miss Nicola Davies, Mr Islwyn Rees, Mrs Meinir Evans a Mrs Carys Lewis. Byddwn yn gweld eu heisiau'n fawr.

## Campws Hŷn



Cafodd Owen Douglas o flwyddyn 11 anrheg arbennig yn ddiweddar. Bu'n astudio gwaith 'Jim Bob Art' ar gyfer ei waith cwrs celf TGAU, ac ar ôl iddo orffen danfonodd Miss Thomas (Pennaeth Celf a Dylunio) esiamplau o'i waith at yr arlunydd.

Mae James Ward, neu 'Jim Bob Art' yn gyn disgybl i'r ysgol ac yn byw fel darlunydd llawn amser yn Llundain bellach. Mae ei waith rhagorol yn gwerthu ar draws y byd cyfan. Roedd James mor hapus fod Owen

wedi astudio ei waith ar gyfer TGAU, danfonodd gyfres o'i gynrychiadau celf arbennig fel anrhegion; plât darluniadol, print a charden hyfryd. Dyma lun o Owen gyda'i anrhegion! Mae Owen a Miss Thomas yn hynod o ddolchgar gydag ymateb caredig James!

Hoffai staff a disgyblion Canolfan y Bont dymuno ymddeoliad hapus ac iachus i Mr Clarke, ein reflexologist. Mae Mr Clarke wedi gweithio gyda'r disgyblion mewn sesiynau arbenigol ers deuddeg mlynedd bellach. Hoffwn ddiolch iddo am ei ymrwymiad a'i waith caled, ac am ei amynedd diddiwedd tuag at ein disgyblion ifanc arbennig.

Eisteddfod yr Urdd: Bu disgyblion Canolfan y Bont yn brysur iawn yn ddiweddar yn creu Totem Pole ar gyfer cystadleuaeth Celf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd. Thema'r gystadleuaeth eleni oedd Tyfu a Ffynnu. Daeth y disgyblion yn gyntaf yn y Sir ac yn drydydd ar lefel genedlaethol. Hoffai staff a disgyblion y Ganolfan ddiolch yn arbennig i Mrs Wendy Thomas am ei chymorth parhaol. Gyda thristwch mawr cofiwn am Joshua Hemming a hunodd yn sydyn ar ddydd Gwener, y 29ain o Fai. Roedd Joshua yn hogyn ifanc oedd yn llawn bywyd a hyder. Bydd yr ysgol gyfan yn gweld ei eisiau'n fawr iawn.

## CYNGERDD

### Cân dros Nepal

Corau meibion unedig  
Côr Meibion Cwm-ann  
Côr Meibion Aberystwyth

Nos Wener 24 Gorffennaf 7.30yh

**TABERNACL ABERAERON**  
Mynediad: £5

Trefnir gan y ddau Gôr Meibion, a chlybiau Rotary Aberaeron, Aberystwyth a Llanbed i gefnogi Apêl Daearyn Nepal

## Y Talwrn

Y Rownd Gyn-derfynol

Hiraethog  
v  
Y Ffoaduriaid

Aberhafren  
v  
Y Tir Mawr

Clwb Rygbi Llanbed  
Nos Fawrth, Gorffennaf y 7fed, 7yh  
Rhaid ac am ddim - croeso i bawb

radio cymru Llois Cymru

**Corisma, Cacen a Chân**

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 4ydd, 2015  
2:00pm  
Ar gae Canolfan Gymunedol Cwmann

"Gŵel Welsh Bêc Off!"

Prynhawn o gystadlu brwd rhwng mudiadau pentref Cwmann, danteithion blasus a chân neu ddwy i'ch diddanu!

Dewch i gymdeithasu ac i fwynhau gyda ni!

Pris mynediad: £5  
(Tocynnau ar gael ar y diwrnod neu gan oedolau Corisma o Ffôn Faw)

Elw tuag at Gymdeithas Alzheimers

## Ffair Ram

Ar Gae Pentref Cwmann

### 12fed Medi 2015

Llywyddion: Dafydd a Delyth Jones, Ffôsffyn.

Sioe, Arddangosfa Adar Ysglyfaethus, Bar, Bwyd, Hufen lla ac atyniadau eraill.



### Arddangosfa Hen Beiriannau

Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 a 11.30 y bore. Beirniadu yn dechrau am 12 o'r gloch.

Ysgrifenyddion:

Danny Davies 423692, Eiddig Jones 422655

## Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAI,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

# ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS  
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambed  
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



## Gwyn Lewis Cyf

Cyflenwi a gosod:  
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,  
Cladinau Wal,  
yn ogystal â Gwelyau,  
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont  
LLANBEDR PONT STEFFAN  
Ffôn a Ffacs: 01570 423984  
Adref: 01570 423349



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

- \* Blinder / diffyg egni
- \* Meigryn
- \* Irritable Bowel Syndrome
- \* Menstrual problems
- \* a mwy

Os am ragor o wybodaeth  
cysylltwch â Carol Rees  
01545 590164  
07929 559561

## Tim Jones



### Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog  
Llanbedr Pont Steffan  
☎ 01570 422644

## The Wash Tub

Heol y Gogledd  
(gyferbyn â'r gofologofn)  
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:  
smwddio, golchi, sychu  
a glanhau.  
Ac yn golchi *duvets*.



# MIS y PaPur Newydd

## Colofn Dylan Iorwerth

### Gwneud drama allan o greisis – a gobaith hefyd

Mi fyddai Idwal Jones wrth ei fodd. Digon posib y byddai'n sgrifennu drama arbennig i ddathlu'r achlysur. Ond dyn a wyl beth mae mawrion Cyngor y Celfyddydau yn ei wneud o'r peth.

Un o ddarnau newyddion calonogol y mis diwetha' oedd fod gŵyl ddrama'n cael ei chreu yn Nyffryn Aeron, yn Theatr Felin-fach, a hynny i raddau helaeth oherwydd rhodd yn ewyllys y diweddar Ann Rhys Davies.

Dw i'n siŵr y byddai hithau wrth ei bodd hefyd, yn gweld gweithgaredd newydd yn datblygu, yn Gymraeg, yn y gymdeithas yr oedd hi wedi dod yn rhan mor werthfawr ohoni.

Mae'r ffaith mai gŵyl ddrama ydi hi – yn hytrach nag unrhyw fath arall o ŵyl – hefyd yn drawiadol ac, fel petai'n mynd yn erbyn ffasiwn yr oes. Er mwyn cael drama rhaid i bobol weithio wyneb yn wyneb ac mae'n rhaid cael cynulleidfa i ddod at ei gilydd i un lle.

Fel y dangosodd y noson i gyhoeddi'r ŵyl, sy'n digwydd ym mis Hydref, mae yna elfen o hiraethu ynghlwm wrth y syniad. Roedd yna hen luniau o gynrychiadau'r gorffennol ac un o gonglfeini hen gwmni Tyngwddwn – Gret Jenkins – yno i helpu gyda'r lansiô.

Mae yna deimlad braf yn yr hen luniau hynny, hyd yn oed yn y mec-yp doji a'r wigiau sgi-wiff. Mi allwch chi deimlo'r cynhesrwydd cymdeithasol wrth edrych arnyn nhw.

Mae gen innau gof o ddyddiau ola' cwmni drama Waunfawr, lle ces i fy magu, ac un awdur, William Vaughan Jones, yn sgrifennu dramâu'n arbennig ar eu cyfer. Mi allai fod wedi llwyddo ar lwyfannau mwy, ond roedd Wil Fôn yn gweld mwy o werth yn y llwyfan lleol.

Ei ddrama enwoca' oedd Brwyn ar y Comin, am helyntion cau'r tir comin yn ein hardal ni – stori i'w gosod ochr yn ochr â rhywbeth fel Rhyfel y Sais Bach yng Ngheredigion. A dyna'r peth am ddrama, yn fwy nag am nofel neu ddim arall. Mae'n ffordd dda o gadw cof a rhannu profiad a sicrhau bod y profiad a'r cof yn datblygu ymhellach at y dyfodol.

Mae pob stori'n ffordd o wneud sens o'r byd o'n cwmnas ni – yn ffordd o ddelio gydag ofnau, yn ffordd o gyd-ddysgu. Ond mae drama'n golygu ein bod yn gwneud hynny ar y cyd, yn cydweithio trwy ein profiadau.

Roedd llawer o ddramâu erstalwm yn llawn cymeriadau stoc – y Sgweiar (blin iawn, neu garedig iawn), y potsiwr (direidus yn fwy na drwg), y ficer cloff ei Gymraeg a'r gwerinwr cloff ei Saesneg; heb sôn, wrth gwrs, am y dyn ifanc oedd yn goresgyn anawsterau.

Yn y cyfan yna – er mor arwynebol oedd y peth – mi allwch chi weld pobol yn delio gyda rhai o'r tueddiadau cymdeithasol o'u cwmnas nhw ... yn eu gosod nhw mewn ffrâm er mwyn eu rheoli ... neu o leia' er mwyn teimlo bod rheolaeth.

Mi fydd yna ambell ddrama draddodiadol yn yr ŵyl newydd ac mi fydd yna ambell ddrama fawr, heriol hefyd. Y peth gwirioneddol ddiddorol fydd gweld a gawn ni ddramâu newydd sy'n dod â'n profiadau ninnau'n fyw.

Mae'r llyfrau academiaidd i gyd yn tynnu sylw at y berthynas oedd yna rhwng drama a chrefydd erstalwm, rhwng theatr a defodau mewn temlau ac wedyn eglwysi. Ac yn llawer o'r dramâu cynnar, elfen bwysig oedd y dorf ... y corws oedd yn cynrychioli llais y bobol gyffredin.

Mae'r hanes yn dangos pa mor bwysig ydi drama. Heb yn wybod i ni, mae'n gallu cyrraedd y dyfnderoedd a chyffwrdd mewn rhannau ohonon ni na all dim arall ei wneud. A drama fyw, sy'n gynnyrch cyd-ymdrechu, yn gallu gwneud hynny, i'r criw a'r gynulleidfa, mewn ffordd na all ffilm deledu fyth ei wneud.

Rhan o gyhoeddi'r ŵyl yn Felin-fach oedd dadorchuddio darn o gelf lliwgar gan yr artist lleol, Meinir Mathias, a hwnnw'n dangos llif y ddrama o'r cynfyd hyd at heddiw.

Mi fydd rhan nesa'r gwaith celf yn hynod o ddiddorol.

## Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn  
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini cysurus  
**Clwb Rygbi Llambed** yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 3.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

*Bwydlenni unigol i ateb eich  
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach*



Lift  
cyfleus  
yn ei le i  
fynd lan  
lloft

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:  
**Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.**

# Gorsgoch

### Pen-blwydd arbennig

Dathlodd Gwilym Jenkins,  
Glynmeherin ben-blwydd arbennig  
yn ddiweddar. Gobeithio eich bod  
wedi mwynhau'r dathlu.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Dannie a Martha  
Llain ar ddod yn hen dad-cu a mam-gu  
unwaith eto. Cafodd Carys a Gwyndaf  
ferch fach a chwaer i Aron Jac.  
Llongyfarchiadau iddynt fel teulu.

# Alltyblaca

### Wyres fach

Llongyfarchiadau mawr i Allan  
a Margaret Wilson, Brynsiriol ar  
ddyfodiad wyres fach newydd,  
merch fach i Carys a Gwyndaf yn  
Nihewyd a brawd bach i Aron Jac.

### Gwellhad buan

Mae Tommy Williams, Nantfach,  
wedi cael llawdriniaeth yn ysbyty  
Glangwili wedi cwmp y wythnos  
diwethaf. Dymuna ei gymdogion a'i  
ffrindiau i gyd wellhad buan iddo.

# Llangybi

### Ysgol Y Dderi

Llongyfarchiadau i Nathan, Dafydd  
a Gruffydd ar gael eu dewis i gymryd  
rhan ar raglen deledu "Pyramid" ar  
S4C. Mi fydd y tri yn ffilmio yn  
ystod mis Medi, ac mi fydd y rhaglen  
yn cael ei darlledu yn ystod tymor yr  
Hydref. Pob lwc i chi.

Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi  
mwynhau sawl diwrnod yn y  
Goedlan gyda Jane Welsh, fel rhan  
o'u thema "Cuddfannau a dant y  
llew". Mae Mrs Jane yn athrawes  
Ysgol Goedwig, felly mae'r  
plant wedi elwa o weithgareddau  
llythrennedd a rhifedd allan yn yr  
awyr agored. Gwych.

"Coedwig wyllt" yw thema  
blwyddyn 3 a 4, felly cawson  
nhw hefyd gyfle i fwynhau nifer o  
ddiwrnodau Ysgol Goedwig gyda  
Mrs Welsh. Diolch iddi am yr holl  
brofiadau cyfoethog a ddaeth i'n  
rhan.

Bu disgyblion blwyddyn 6 yn  
ymweld â Denmarc ddechrau mis  
Mehefin! Ar y diwrnod cyntaf  
cawsom ein croesawu i Ysgol Dalby  
gan y staff a'r disgyblion. Mae  
cysylltiad rhwng y ddwy ysgol  
ers pymtheg mlynedd bellach!  
Yna, aethom i gastell Kolding,  
neu "Koldinghus", a daeth Kim  
i'n tywys ni o gwmpas yr adeilad  
hanesyddol, gan gyflwyno ffeithiau  
a storïau mewn arddull ddifur iawn!  
Y diwrnod wedyn aethom i'r ysgol,  
gan ddysgu ar y cyd gyda'n ffrindiau  
o Ddenmarc. Bu disgyblion Y

# Llangybi a Betws



Ffion, Kaci, Elonwy ac Evie Ysgol y Dderi yn dysgu yn y goedlan.



Diwrnod mabolgampau Ysgol y Dderi: Jake, Siri, Brynmor, Tirion a Lily, Capteiniaid y tîm buddugol - Aeron.



Disgyblion Ysgol y Dderi ar eu ffordd i Ddenmarc.

Dderi yn cyflwyno pŵer-bwynt am wledydd y Deyrnas Unedig, yn dysgu rownderi Cymraeg (mae rownderi Ddenmarc yn wahanol iawn!!), ac yn dawnsio gwerin “Jac do” gyda hanner cant o blant! Aeth y disgyblion adref gyda’i ffrindiau o Ddenmarc i gael blas ar eu diwylliant yn ogystal a’u bwyd! Daeth pawb nôl i’r ysgol i gysgu, wedi eu cyffroi yn llwyr. Y diwrnod canlynol, aeth pawb i nofio ym mhwl nofio bendigedig Kolding! Cawsom bicnic ger y llyn, ac yna cael cyfle i siopa yn y dre. Y noson honno, roedd yr ysgol yn cynnal Gŵyl Gerddoriaeth, a gwahoddwyd plant Ysgol Y Dderi i’r llwyfan i berfformio. Roedd 800 o bobl yn y gynulleidfa, a chanodd y plant yn arbennig, gyda’r rhieni o Ddenmarc yn rhyfeddu at hyder ein plant wrth ganu. Diwrnod gwych yn Legoland wedyn!! Mae Lego yn dod o Ddenmarc, ac mae canolfan rhyngwladol y cwmni yn Billund. Cawsom ddiwrnod i’r brenin yn y parc, yn mwynhau pob math o brofiadau cyffrous. Teithio am adref wedyn, gyda phawb wedi blino ... ond wedi mwynhau mas draw!!

Cawsom ymweliad gan Adar Ysglyfaethus Cymru yn ddiweddar, a chafodd y plant y cyfle i ddal tylluan, hebog, barcud ac eryr go iawn!! Roedd y plant wedi gwrando’n astud ar gyflwyniadau yr arbenigwyr, ac wedi holi cwestiynau

doeth a diddorol. Profiad bythgofiadwy.

Daeth Cerddorfa Athrawon Teithiol Ceredigion i’r ysgol i berfformio amrywiaeth o ddarnau cerddorol i’r plant. Roedd hyn yn gyfle i blant blwyddyn 2 gael blas ar yr offerynnau sydd ar gael mewn gwersi cerddoriaeth o flwyddyn 3 ymlaen sef telyn, drymiau, soddgrwth, ffidl, fflwt, clarinét, trwmped ac utgorn! Roedd clywed y gerddorfa hefyd yn sbardun i’r plant sydd eisoes yn cymryd gwersi offerynnol o fewn yr ysgol.

Bu disgyblion blwyddyn 4 yn cymryd rhan mewn twrnament Criced yr Urdd yn ddiweddar. Ennill a cholli oedd hanes y tîm, gyda phawb wedi rhoi o’u gorau glas.

Fel rhan o’u thema “Peiriant Sgrech” bu disgyblion blwyddyn 5 yn Oakwood. Daeth Mr Gareth Davies, cyfarwyddwr y safle i siarad â’r plant am ei waith o ddydd i ddydd yn rhedeg y parc. Dysgodd y plant lawer am rymoedd hefyd, a chael llawer iawn o hwyl a sbri!

Cynhaliwyd Mabolgampau’r ysgol dan heulwen bendigedig. Bu’r plant yn cystadlu’n frwd ac yn fonheddig. Aeron enillodd y dydd gyda 256 o bwyntiau, Teifi yn ail gyda 181 o bwyntiau a Dulas yn drydydd gyda 161 o farciau. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Daeth Cheryl Jones i fewn i siarad â disgyblion blwyddyn 3 a

4 am ei gwaith fel recordydd sain i raglenni natur. Mae’n gweithio’n reolaidd gyda Iolo Williams, ac yn ddiweddar bu’n rhan o dîm rhaglen deledu “Springwatch” gan y BBC. Roedd y plant wrth eu boddau yn clywed straeon diddorol Cheryl, ac yn methu’n lân a chredu y nifer o wledydd mae hi wedi ymweld, a’r nifer o anifeiliaid mae hi wedi cael y fraint o weld yn eu cynefin naturiol wrth wneud ei gwaith. Diolch o galon iddi am roi o’i hamser i rannu ei phrofiadau.

Aeth disgyblion blwyddyn 3 a 4 i warchodfa natur Cors Caron fel rhan o’u gwaith thema. Bu Iestyn Evans, sef Warden y gors yn tywys y plant o gwmpas y safle, gan drafod yr holl blanhigion a chreaduriaid sy’n byw yng nghynefin y gors. Cawsom bicnic yn y ganolfan arbennig, gan fwynhau yr olygfa odidog.

Bu disgyblion blwyddyn 5 yng Ngwersyll yr Urdd, Caerdydd am dridiau. Bu’r plant yn ymweld â Big Pit, Sinema, Bowlio 10, Senedd, Bwyty Tsieiniaidd, Stadiwm y Mileniwm, Techniquet, nofio, perfformiad Lleud yn Olau yng Nghanolfan y Mileniwm a chyfle i gymdeithasu a ffrindiau newydd o Geredigion a Chaerdydd. Diolch i Anwen Eleri am drefnu’r cyfan.

Yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 am dridiau. Gwibgartio, saethyddiaeth, sgïo, nofio, marchogaeth, disgo, trampolîn a chwrs antur!!! Tridiau prysur tu hwnt!

Bu disgyblion blwyddyn 1 a 2 yn cysgu dros nos ym Mhentre Bach! Cawson nhw gyfle i gwrdd â Sali Mali, chwarae yn y caffi, garej Bili Bom Bom, carafan Coblyn a siop Parri Pob Peth! Cawson nhw lawer o hwyl a sbri, a chael profiad bendigedig yng nghwmni Sali Mali!!

Croeso mawr i Miss Mared Lloyd Jones, sy’n yn ymuno â ni ar staff yr ysgol, fel cynorthwy-ydd dosbarth. Gobeithio y bydd hi’n hapus iawn yn ein plith.

Hwyl fawr a phob lwc i holl ddisgyblion Blwyddyn 6 fydd yn ein

gadael ni ddiwedd y tymor yma, am eu haddysg yn y sector uwchradd. Bydd rhai yn mynd i Aberaeron, Bro Pedr a Thregaron eleni, a’n colled ni fydd eu hennill nhw.

Nos Iau, 9fed o Orffennaf, mi fydd gŵyl gerddoriaeth gyntaf yr ysgol sef “Glaston-Dderi”, rhwng 6 ac 8 mewn pabell fawr ar faes yr ysgol. Dewch yn llw i fwynhau noson o gymdeithasu mewn awyrgylch anffurfiol, gan fwynhau cerddoriaeth cyfoes gan fandiau lleol a pherfformiad unigol gan bob dosbarth. Bydd bwyd a diod ar gael, dewch yn llw i gefnogi.

## Cydymdeimlo

Taenwyd ton o dristwch mawr dros ardal eang pan ddaeth y newyddion am huno Mr Greg Evans o Lamed. Cydymdeimlir a’r teuluoedd canlynol yn eu profedigaeth o golli perthynas agos sef Bro’r Felin, Coxhead Hakll, Glangors, Blaenwern, 5 Rhydlanfaie a Sisial y Coed ac hefyd a chysylltiadau teuluol eraill a ffrindiau. Cydymdeimlir hefyd a Mr John Benjamin, Arfryn yn eu brofedigaeth yntau hefyd wedi colli perthynas agos yn ddiweddar.

## Maesyffynnon

Mewn cyngerdd yng Nghapel Maesyffynnon ar Fehefin 21ain cynhaliwyd noson o ganu bendigedig gan Gôr Clychau’r Fedwen dan arweiniad medrus y Canon Aled Williams, a’i cyfeilyddes dawnus Neli Jones a’i gyflwynydd Mary Lewis. Cafwyd unawdau, deuawdau a chyflwyniad llafar ymysg yr eitemau a’r cyflwyniad amrywiol ac o safon uchel iawn.

Y wraig wadd oedd Mrs Enid Thomas o Gasnewydd ond yn wreiddiol o Llangybi. Yn anffodus roedd yn methu bod yn bresennol ond mi gyfrannodd yn anrhydeddus iawn tuag at gyllid y Capel.

Trefnwyd y noson oedd Mrs Mair Morgan a’r Llywydd oedd Sally Davies ac fe daliwyd y diolchiadau gan Mair Spate.

# Llanwnnen



Tîm Pêl-droed bechgyn Ysgol Llanwnnen wedi eu llwyddiant yng nghystadleuaeth Tregaron.



Y Cyngorydd Gwen Davies, Cyn-gadeirydd Cyngor Cymuned Llanwnnen yn trosglwyddo Cadwyn y Cadeirydd i'r Cyngorydd Elin Mai Thomas, y Cadeirydd am y flwyddyn 2015-2016.



Tîm hoci Ysgol Llanwnnen a enillodd gystadleuaeth 'West is Best' Gorllewin Cymru yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar.



Ar y 23ain Mehefin yng Ngwesty'r Grannell cyflwynwyd diffibrulydd gan Mrs Gwyneth Morgan er cof am ei gŵr Wyn i Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanwnnen Miss Elin Thomas, yn y llun gydag Ann Davies, Trysorydd a Jennie Bracher Ysgrifenyddes Cangen leol Sefydliad y Galon.



Llongyfarchiadau mawr i Steffan Griffiths, Pantydderwen ar ennill chwaraewr gorau yn Nhwrnament Dinbych y Pysgod ddiwedd mis Mai. Mae Steffan yn aelod o garfan fuddugol Llambod ac yn ddisgybl yn Ysgol Llanwnnen.

## 18 oed

Yng nghanol mis Mehefin dathlodd Sioned Hâf, Glas y Dorlan ei phen-blwydd yn 18 oed. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu. Dymuniadau da i ti i'r dyfodol.

## Sefydliad y Merched

Ym mis Mai aethom ar wibdaith i Fferm Alltygog, Melin Wen, Caerfyrddin, sef cartref Lisa

Fearn, cogyddes o fri. Cawsom arddangosfa goginio hyfryd ganddi yn cynnwys brownies siocled, bara clasurol a myffins cacen foron ac estynnodd ein Llywydd, Mrs Avril Jones, ein diolch diffuant iddi. Enillwyd y gystadleuaeth fisol gan Mrs. Mary Davies.

Ym mis Mehefin daeth Evana Lloyd o Aberaeron atom i ddangos sleidiau ac adrodd hanes ymweliad Côr Sefydliad y Merched ag Awstralia. Diddorol iawn oedd clywed am y daith a gweld y llywydd prydferth. Diolchodd ein Llywydd iddi am noson hyfryd ac eiliwyd hyn gan Mrs. Alice Davies. Enillydd y gystadleuaeth oedd Mrs. Mary Davies ac enillwyd y raffl gan Mrs. Evana Lloyd.

## Llywyddiant

Llongyfarchiadau i Aled Wyn Thomas, 1 Sycamore Terrace ar ennill y wobr gyntaf ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerfili yn ddiweddar fel un o'r triawd a gystadlodd gydag Aelwyd y Waun Ddyfal, Caerdydd yn y gystadleuaeth ensemble lleisiol o dan 25 oed.

## Ysgol Llanwnnen

Enillodd tîm hoci'r ysgol gystadleuaeth 'West is Best' Gorllewin Cymru yng

Nghaerfyrddin yn ddiweddar. Ysgol Llanwnnen yw'r ysgol gyntaf o Geredigion i ennill y gystadleuaeth trwy guro timoedd gorau Abertawe, Sir Gâr a Sir Benfro. Bu'r tîm yn ddi guro trwy'r holl gystadleuaeth sydd yn tipyn o glod i ysgol o 38 o ddisgyblion. Curwyd Coleg Llanymddyfri yn y rownd gyn-derfynol ac Ysgol Oakleigh House, Abertawe yn y rownd derfynol. Aelodau'r tîm oedd Lucy, Catrin, Steffan Griffiths, Steffan Holmes, Meirion, Guto, Lilly a Steffan Evans. Da iawn i chi gyd.

Cafodd dimau pêl droed merched a bechgyn yr ysgol llwyddiant yng nghystadleuaeth Tregaron. Chwareodd y merched pedair gêm a dim ond colli un ohonynt ac fe lwyddodd tîm y bechgyn i guro cystadleuaeth y bechgyn. Aelodau tîm y bechgyn oedd Steffan Griffiths, Steffan Holmes, Meirion, Guto, Steffan Evans, Rhys, Gruff, Nat a Meredydd. Llongyfarchiadau i chi gyd.

Bu nifer o aelodau'r ysgol yn cymryd rhan yn yr Her Cadw'n Sych yn ffair haf Ysgol Llanwenog yn ddiweddar a braf oedd gweld y disgyblion yn cystadlu gyda

disgyblion o ysgolion eraill. Ar ddiwedd y noswaith daeth y tîm 'Let's Leg It' i'r brig, sef Steffan, Meirion a Guto o Ysgol Llanwnnen a Carwyn o Ysgol Cwrtnewydd. Da iawn bois.

Ar brynhawn braf o fis Mehefin bu'r disgyblion yn cymryd rhan ym Mabolgampau'r ysgol mewn rasys rhedeg, sach, wŷ ar lwy a rhwystrau. Bu pawb yn cymryd rhan a chystadlu'n frwd ac ar ddiwedd y dydd aeth pawb adre gyda llawer o rubanau. Diolch yn fawr i ffrind da i'r ysgol am roi y rhubanau hardd eleni eto ac hefyd diolch i'r holl rieni a ddaeth i gefnogi'r disgyblion.

Bu aelodau o ddosbarth Mr Ebbsworth i'r theatr yn ddiweddar i weld perfformiad Arad Goch o lyfr T.Llew Jones 'Lleud Yn Olau'. Roedd y disgyblion wedi mwynhau mas draw ac wrth eu boddau yn clywed y storïau.

Bu aelodau Blynnyddoedd 5 a 6 yr ysgol lawr yng Nghanolfan Yr Urdd Caerdydd ar dri tridiau ar ddiwedd mis Mehefin. Cafodd y disgyblion brofiadau arbennig gan ymweld â Stadiwm y Mileniwm, arddangosfa Dr Who, Techniquet a'r Big Pit yn ogystal â chael cyfle i fowlio 10 a

# Llanwnnen

nofio. Diolch i Anwen Eleri a staff yr Urdd am droidiau bendigedig llawn hwyl a sbri.

Croeso cynnes i gyn-ddisgyblion, disgyblion presennol, rheini, Llywodraethwyr a ffrindiau'r ysgol i ymuno gyda ni mewn te parti ar bnawn Sadwrn 11eg Gorffennaf am 2yp i ddiolch i Mrs Enfys Llwyd am ei gwasanaeth clodwiw i'r ysgol. Bydd yn gyfle hyfryd i bawb i ymuno i ddymuno'n dda i Mrs Llwyd am ymddeoliad hir a hapus.

Hoffai'r ysgol ddiolch yn ddiffuant i Sue a Siriol, a holl staff Gwesty'r Grannell, am eu cefnogaeth i'r ysgol ar hyd y blynyddoedd. Mae'r ysgol wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau yn y Grannell, gan dderbyn croeso a chefnogaeth bob tro. Bu Sue a Siriol yn hael i'r disgyblion, a gwerthfawrogwn hynny yn fawr. Pob dymuniad da ichi yn y dyfodol.

Mae Mrs Enfys Llwyd yn ymddeol fel athrawes Cyfnod Sylfaen Ysgol Gynradd Gymunedol Llanwnnen ar ddiwedd tymor yr Haf 2015. Fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth hir i'r ysgol, trefnir tysteb i'w gyflwyno iddi ar brynhawn yr 11eg o Orffennaf mewn te parti am 2 o'r gloch. Mae croeso i bawb ymuno â ni. Cyfraniadau os dymunir i'r ysgol erbyn Dydd Mercher, yr 8fed o Orffennaf 2015.

## Taith Gerdded

Am ddeg o'r gloch nos Wener y 19eg o Fehefin cychwynnodd Huw Jenkins a Barry (Finch) Davies ar y daith hir (dros 60 milltir) ar hyd Llwybr Arfordir Ceredigion o Ynyslas i Bont Aberteifi. Cerddodd y ddau am oriau yn y glaw a'r tywyllwch cyn cyrraedd Aberaeron tua saith o'r gloch am frecwast yn fferm Clogfryn.

Yna ymunodd Teleri ag Elin Gwyther, Linda Jenkins ac Eirlys Evans. Cafwyd toriad i ginio yn Llangrannog, gyda phawb yn falch o'r egwyl a'r bwyd.

Wedi cinio ymunodd criw o bobl, teulu a ffrindiau, i gerdded yn eu tro – eu hoedrannau yn amrywio o 7 i 77 a braf oedd gweld gymaint yn barod i gefnogi.

Daeth Huw a phawb i ben y daith am 7.50 nos Sadwrn, yn flinedig ond yn hapus.

Pwrpas y daith oedd codi arian tuag at Gymdeithas MS, elusen sydd yn agos iawn at galon Huw gan fod ei gefnder yn dioddef o'r clefyd yma ers blynyddoedd bellach. Y targed ar y cychwyn oedd £500 ond erbyn hyn, mae'r cyfanswm wedi pasio £2000 ac yn dal i godi. Tipyn o gamp o gofio taw dim ond mis yn ôl y dechreuodd gasglu at yr achos!

Nid yw'n rhy hwyr i gyfrannu. Gellir gwneud hynny drwy fynd i wefan justgiving.

# Llanybydder

## Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Irene Jones, Bryn Cottage sydd yn dathlu pen-blwydd arbennig yn ystod mis Gorffennaf. Mwynhewch y dathlu.

## Diolch

Dymuna Lyn, Vivian a Gill Evans, Heol-y-Gaer a'r teulu ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddagoswyd iddynt o bell ac agos yn dilyn marwolaeth ei wŷr, Curtis drwy ddamwain erchyll.

Gwerthfawrogi y cyfan yn fawr ar amser mor anodd.

## Côr Lleisiau'r Werin

Ar nos Sul ola' mis Ebrill, bu'r côr yn canu yng Nghapel Bwlchgwynt, Tregaron mewn Cymanfa Ganu Dosbarth Glannau Teifi ac Aeron. Cawsom hwyl ar y caneuon, ac yn ôl y gynulleidfa, mwynhwyd ein datganiad yn fawr.

Yna, ar Fai 15ed, noson goffi yn festri Aberduar oedd lleoliad y canu gyda Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder. Yr oedd plant yr ysgol gynradd hefyd yn cymeryd rhan ac roedd eu canu yn swynol iawn.

Ar ddydd Sadwrn, Mehefin 13eg, bu'r côr yn diddanu yng nghartref Cwm Aur lle roedd barbeciw yn cael ei gynnal gan Bwyllgor Ymchwil Cancr Llanybydder a'r Cylch. Diolch i Alwena am lenwi'r bwlch i arwain yn absenoldeb Elonwy.

Ar ddydd Iau, Awst 6ed, bydd y côr yn canu ar lwyfan perfformio yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod a'r Gororau. Os oes unrhywun am ddod gyda ni ar y bws, cysylltwch ag Ann ar 01570 480 234 neu unrhyw aelod arall o'r côr, er mwyn sicrhau sedd.

# O'r Cyngorau Bro



## CYNGOR CYMUNED LLANYBYDDER

Sedd wag ar y Cyngor Cymuned - Cafodd Mr Dave Doughty, Highlands, Llanybydder ei gyfethol gan y Cyngor Cymuned..

Y Parc Chwarae - Mae'r cais am grantiau yn symud ymlaen yn araf bach.

Goleuadau Nadolig - Mae'r Cyngor ar ddeall bod arian ar gael gan Bwyllgor y Pentref. Bydd y Clerc yn holi a fyddai diddordeb ganddynt gyfranu at gost prynu goleuadau Nadolig newydd i'r pentre eleni.

Tai Bach ger y Crosshands - Mae'r Cyngor Cymuned wedi cymeryd y lês. Bydd y toiledau yma ar agor bob dydd o'r wythnos o hyn ymlaen. Cysylltwch â Mavis ar 01570 422 348 os oes anhawster.

Ysgol Llanybydder - Mae Mrs Pam Burke wedi ei chynnig i wasanaethu ar y corff llywodraethol.



## LYN JONES

"At eich gwasanaeth"



- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

**01570 481029**  
Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL



Cofrestrwch ar wefan gymunedol newydd  
**www.clonc360.cymru**  
er mwyn cyfrannu eich stori chi.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a Gwasanaeth fframio lluniau ayb

# Sianti

Uned 2 Monumental Works,

Stryd y Fro, Aberaeron

gyferbyn a Banc y Natwest

**01545 571510**

**www.sianti.org**

## Gwasanaeth Lamineiddio Dyffryn Aeron

Diogelwch eich gwaith mewn maint A4 i A1

Prisiau rhesymol i unigolion, ysgolion a myfyrwyr

Cysylltwch â Roy Davies ar 07792 627974.

## Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Pontfaen, Llambed  
Ffon: 423300 Ffacs: 423223  
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

## Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Conduct Authority

## T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

**01570 423921**

**07867 945174**

# Llanbedr Pont Steffan



Mewn cinio yng Nghlwb Rygbi Llanbedr dangoswyd gwerthfawrogiad o wasanaeth dau ddyn ambiwlans sydd newydd ymddeol. Chris Thomas a ddechreuodd yn Llanbedr ym 1984 a Tony Cadman a ymunodd yn 1978. Yn y llun gyda Huw Davies, Dafydd Williams a Rob Jefferies.

## Merched y Wawr

Gorffennwyd ein tymor gyda Helfa Drysor o amgylch tref Llanbedr wedi ei threfnu yn ddiddorol iawn gan y swyddogion adloniant sef Gwen Jones, Dilwen Roderick a Morfudd Slaymaker. Cafwyd hwyl yn ceisio dod o hyd i'r atebion cywir a hyfryd oedd ail ymuno a'n gilydd yn Yr Hedyn Mwstard i fwynhau gwledd flasus wedi ei baratoi ar ein cyfer. Diolchodd Mary Davies, ein Llywydd, i'r dair swyddog adloniant am drefnu'r noson ac i Liz Jones a'i staff am y bwyd hyfryd. Yn fuddugol ar yr Helfa Drysor oedd Janet Evans, Eiry Jones a Lena Daniel.

Estynwyd croeso yn ôl i Eiry Jones, Brynsteffan ar ôl ei llawdriniaeth. Hefyd llongyfarchwyd ŵyr Eiry Jones, Maesyllan a enillodd y goron yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili. Derbyniwyd cerdyn o ddiolch i'r aelodau oddi wrth Eryl Jones ar adeg drist o golli ei mam.

Mae rhai aelodau wedi bodloni paratoi a gweini bwyd ar gyfer ymgyrch noddedig gan Rhys Meirion a'i ffrindiau yn Gelligarneddau ddechrau Mis Gorffennaf. Penderfynwyd cyfrannu £25.00 eleni eto tuag at Eisteddfod Rhys Thomas James Llanbedr. Diolchwyd i Verina Roberts ac Eiry Jones am ymweld â thrigolion Hafandeg y mis yma.

Cyfeiriodd Mary mai hwn oedd ei chyfarfod olaf fel llywydd gan ddweud ei bod wedi mwynhau ei blwyddyn ac yn teimlo ei bod wedi cael tymor amrywiol a llwyddiannus. Diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith a'u cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Dymunodd yn dda i Ann Bowen Morgan a'i phwyllgor newydd y tymor nesaf. Fe wnaeth Ann ymateb drwy ddiolch i Mary am lywio'r cyfan mor gartrefol drwy'r flwyddyn ac ei bod yn fraintriddi hithau gael ei hethol yn lywydd nesaf y gangen. Fe wnaeth Elma Phillips, ein trysorydd, hysbysu bod y daith gerdded noddedig wedi

codi swm sylweddol o arian tuag at goffrau'r gangen. Enillydd y raffl misol oedd Verina Roberts.

## Llongyfarchiadau cerddorol

Llongyfarchiadau i Niah Bouvet, Dinas View, Llansawel am basio Gradd 1 ar y piano yn ddiweddar. Gwnaeth Niah basio gydag anrhydedd gan gael marciau llawn yn y theori, y gwaith technegol a'r profion clust. Tipyn o gamp! Da iawn ti.

## Llwyddiant Adran ac Aelwyd yr Urdd

Daeth llwyddiant mawr i ran aelodau Aelwyd ac Adran yr Urdd Llanbedr Pont Steffan eleni yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerffili a'r cylch. Cipiodd y grŵp llefaru blwyddyn 9 ac iau y wobwr gyntaf dan hyfforddiant Elin Williams. Mae'n werth nodi rhai o sylwadau'r beirniaid Gwawr Davies ac Elen Gwenllian, "Cafodd y ddwy ohonom ein cyfareddu o'r eiliad gyntaf. Dyma barti o leisiau cyfoethog. Cafwyd cyffyrddiadau effeithiol a erys yn hir yn y cof. Roedd pennill 2 yn gyrru ias lawr yr asgwrn cefn. Llwyddoch i daro'r lefel o goegni sydd ei angen ym mhennill 3 yn berffaith a chafwyd diweddrglo gwefreiddiol".

Hefyd dyfarnwyd y parti unsain blwyddyn 6 ac iau yn ail dan arweiniad Rhiannon Lewis a Lois Williams yn cyfeilio. Roedd y beirniaid yn uchel iawn eu canmoliaeth o ddatganiad hyfryd y plant. Cyfeiriwyd at eu lleisiau swynol ac at nifer o gyffyrddiadau gwnaeth ychwanegu yn fawr at y perfformiad heb amharu ar lif naturiol y frawddeg gerddorol.

Mae dyled yr aelodau yn fawr iawn i Elin a Rhiannon am roi o'u hamser i'w hyfforddi a hefyd i Lois am ei chyfraniad gwerthfawr hithau. Braf oedd gweld y llafur caled wedi dwyn ffrwyth. Nid ar chwarae bach mae cyrraedd llwyfan yr Eisteddfod ac estynnir llongyfarchiadau calonnog i bawb. Diolch i'r aelodau



Llongyfarchiadau i Beci Harrison am ennill gwobr chwaraewraig orau i ferched dan 14 yn y Twrnament pêl droed a gynhaliwyd yn Llanybydder yn ddiweddar. Diolch hefyd i Kelvin James am roi o'i amser a'i waith caled wrth hyfforddi tîm merched Llanybydder.

am eu ffyddlondeb i'r ymarferion ac i'r rhieni am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i gludo'r plant a'r bobl ifanc i Gaerffili. Diolch hefyd i Llinos am ei threfniadau trylwyr ac i Janet am ei chymorth hithau. Treuliwyd diwrnod pleserus iawn yn yr Eisteddfod â llwyddiant yr Aelwyd a'r Adran yn naturiol wedi ychwanegu at y mwynhad.

## Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

## Llwyddiant Eisteddfodol

Llongyfarchiadau cynnes i Siwan Hedd Mason o Lanfairpwll, wyres Bryn a June Mason ar ennill y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth cyflwyno alaw werin i flynyddoedd 7, 8 a 9 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerffili a'r cylch eleni. Nid dyma'r tro cyntaf iddi ddod i'r brig ym Mhrifwyl yr Urdd. Roedd Siwan hefyd yn aelod o Gôr Llwyddiannus Ysgol Glanaethwy yng nghystadleuaeth 'Britain's got Talent'. Gwelwyd Siwan yn siarad ar S4C am y profiad bythgofiadwy o fod yn rhan o raglen mor enfawr a phoblogaidd. Mae Tad-cu a Mam-gu a'r cysylltiadau i gyd yn Llamedd yn ymfalchïo yn ei llwyddiant. Estynnir pob dymuniad da i Siwan i'r dyfodol.

## Bedyddwyr

Cynhelir Cyrddau blynyddol Mudiad Chwirydd Undeb Bedyddwyr Cymru eleni yn nghapel Aberduar ar ddydd Mercher 16 Medi pan fydd ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos yn camu i'r Llwyddiaeth. Bydd oedfa am 1.30 y prynhawn a darperir pryd o fwyd i bawb cyn oedfa'r hwyr am 5.30.

Estynnir croeso cynnes i bawb. Mae angen i bawb sydd am archebu bwyd anfon £6 i Jean Jones Cwrtnewydd erbyn 28 Awst os gwelwch yn dda.

Dymunir yn dda i'r Parchedig Jill Tomos yn ystod ei blwyddyn fel

Llywydd.

## Ysgol Sul Noddfa

Bu'r tymor aeth heibio yn un llwyddiannus unwaith eto i'r Ysgol Sul gyda'r plant yn dod yn rheolaidd bob nos Wener gan gymryd rham mewn gweithgareddau amrywiol. Braf oedd croesawu aelod newydd yn ddiweddar sef Cerys o Langybi ac mae wedi setlo lawr yn dda iawn yn ein plith.

Diolchir yn gynnes i'r rhieni am eu cefnogaeth ac am fod mor barod i gynorthwyo ar nos Wener. Diolch hefyd i'r plant am eu ffyddlondeb a'u hymroddiad i'r ysgol Sul. Bydd seibiant i bawb dros yr wythnosau nesaf ac edrychwn ymlaen i ail ddechrau tymor yr Hydref gydag oedfa a phicnic ar ddechrau Medi. Haf hapus a phleserus i bawb.

## Dechrau Canu Dechrau Canmol

Bydd yna gyfle i glywed y bedwaredd raglen a recordiwyd yn Eglwys Shiloh Llamedd ar y nos Sul Gorffennaf 19. Bydd y Parch Goronwy Evans yn cael ei holi y tro yma ac mi fydd yna ddatganiad gan Efan Williams Lledrod. Edrychwn ymlaen hefyd i fwynhau Merched Malog yn cyflwyno dau bennill o'r don hyfryd Clorach a hynny fel rhan o'r canu cynulleidfaoel. Twynog Davies yw arweinydd y gân gyda Eurwen Davies wrth yr organ. Mae yna ganmoliaeth mawr wedi bod i'r gyfres o'r rhaglenni yma a recordiwyd bron blwyddyn yn ôl bellach yn Shiloh ac rwy'n siwr y bydd y noson yma eto yn fwynhad pur i'r gwrandawyr.

## Taith Feicio

Mae Dion Evans, Rhosalaw, Bwlchfadfa, Talgarreg ond sydd â chysylltiadau agos â Llamedd yn trefnu Taith Feicio rhwng y 29 a 30 o Awst 2015 o Fwlchfadfa lan i Llyn Brianne a nôl (80 milltir mewn dau ddiwrnod) er mwyn codi arian i Cancr. Os oes diddordeb da rhywun i ymuno gyda fe ar y cwrs neu hyd yn oed gyfrannu - cysylltwch drwy

# Llanbedr Pont Steffan



Mwynhau'r hanes a'r heulwen yng Nghastell Cilgerran - Taith Cymdeithas Hanes Llanbedr.

ffonio 07989 563 188.

## Cymorth Cristnogol

Bu'r ymateb i'r casgliad o ddrws i ddrws yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol Mai 11-17 eto eleni yn lwyddiant mawr a derbyniwyd y swm sylweddol o £3325-62p. Mae ein diolch yn fawr i'r rhai a fu yn casglu yn y dref a'r cyffiniau.

Yn anffodus ac yn ystod yr un adeg, syfyrdanwyd y byd gan drychineb enfawr Nepal ac yn naturiol rhaid oedd ceisio estyn llaw a chynorthwyo yn ariannol. Gwnaed apêl ymysg yr Eglwys i'r mudiadau ac unigolion lleol ac mi gasglwyd y swm anrhydeddus o £1678-79p. Diolch unwaith eto i Mr Percy Evans -Trysorydd y gangen leol o Gymorth Cristnogol am gyfrif yr holl arian a'i trosglwyddo i'r swyddfa yng Nghaerfyrddin. Mae hyn yn golygu cryn ymroddiad ar ran y Trysorydd yr adeg yma o'r flwyddyn. Mi fedrwn ymfalchïo yn y ffaith fod y dref a'r ardaloedd cyfagos wedi codi dros £5004 at y difreintiedig a'r anghenus ac y mae'r Pwyllgor lleol o Gymorth Cristnogol yn gwerthfawrogi eich haelioni yn fawr iawn.

## Pen-blwyddi Arbennig

Pen-blwydd hapus i Mam, May Thomas yn 95 oed ar Gorffennaf 24ain hefyd i Maureen Rees yn 70 oed ar 25ain. Oddi wrth Idwal a Margaret.

## Lawnsio Hunangofiant, Picton Jones

Ar nos Wener, Gorffennaf y 3ydd bydd noson arbennig iawn yn cael ei chynnal yn Festri Brondeifi i lawnsio llyfr Picton Jones. Erbyn hyn mae Picton Jones yn enw cenedlaethol yn Sioeau Cymru a Phrydain ac yn cael ei gydnabod fel arbenigwr ym myd dofednod trwy'r gwledydd. Yn wir, mae'r teulu brenhinol yn adnabod Pic Drefach bron cystal â neb yng Nghymru. Yn y llyfr ceir portread byw o Picton, y cymeriad lliwgar, y storiwr a'r cwmniwr da. Lle bynnag y mae, clywir ei chwerthiniad iach a'i hiwmor ffraeth.

Yn nhudalennau'r llyfr cewch

gyfle i adnabod y cystadleuydd peryglus, y beirniad craff, y pysgotwr a'r cyn-botsier a'r Rhyddfrydwr didroi'n ôl. Erbyn hyn mae ei briod Helena yn cael cymaint o hwyl a blas a Picton yn paratoi'r dofednod i'r sioeau. Llyfr sydd yn werth ei ddarllen.

## Cymdeithas Hanes

Trefnwyd diwrnod arbennig gan Gaenor Parry i ddiweddu'r tymor presennol. Cyrraedd Castell Aberteifi, a phaned boreol wedi ei drefnu ar ein cyfer, cyn cael ein tywys o gwmpas gan Glen Johnson, un sydd wedi bod ynghlwm â'r gwaith o adnewyddu'r castell o'r cychwyn. Rhoddodd hanes y Castell dros y naw can mlynedd o'i bodolaeth, gan wau'r cyfan yn gelfydd a byrlymus. Yr Arglwydd Rhys yn sefydlu'r eisteddfod gyntaf yno yn 1176, - yn creu ymrysonau heddychlon yn hytrach na'r brwydrau cynt.

Adeiladwyd tŷ Georgaidd o fewn muriau'r castell gan John Bowen yn 1808, ynghlwm wrth y Tŵr Ogleddol, a'i enwi'n Llain y Castell. Bu'n gartref i bedwar Uchel Siryf Ceredigion rhwng 1827 a 1940, pan werthwyd y tŷ i Barbara Wood o Swydd Hartford. Yn ystod blynyddoedd yr Ail Ryfel Byd, cymerwyd rhan helaeth o'r tŷ gan y fyddin, ac yn anffodus o'r amser hynny ymlaen, bu dirywiad mawr yng nghyflwr y lle.

Yn 2003 sefydlwyd Ymddiriedolaeth Cadwgan, ac aed ati i ddechrau clirio'r tir, ond ers 2010 mae gwaith enfawr wedi ei gyflawni i ddod â'r Castell hynafol yma unwaith eto yn fan cyrchfan i ymwelwyr.

Ymlaen wedyn i Gastell Cilgerran, a chael ein tywys drwy hanes y lle hwnnw gan Yr Athro David Austin. Nodwedd arbennig o'r castell yma yw'r ddau dŵr crwn enfawr. (Ym mwyafrif y cestyll Cymreig, ceir un tŵr tebyg - megis Dinefwr a Phenfro). Hanes Nest yn cysylltu Cilgerran â chastell Aberteifi, a hanes Yr Arglwydd Rhys â'r ddau le ac Ystrad Fflur yn creu cadwyn o hanes, a'r cyfan mewn ffordd mor ddiddorol.

Diolchwyd yn gynnes i bawb am

ddiwrnod arbennig gan y Cadeirydd, Selwyn Walters, a bydd y Gymdeithas yn ail-gychwyn eto ym Mis Medi. Manylion yn 'Clonc' Medi.

Oes gan rywun hen luniau o dafarnau Llanbedr? (Prosiect 'Peint o Hanes, plis' Llyfrgell Genedlaethol Cymru). Os oes, - neu unrhyw hanesyn diddorol, a fydddech mor garedig a chysylltu ag Yvonne Davies, 480590 neu e-bost yvonne.afallon@gmail.com

## Amgueddfa Llanbedr

Cafwyd diwrnod da yn yr Amgueddfa ar Fehefin 8fed, pan ddaeth Mr Ian Taylor o gwmni Peter Francis Cyf., Caerfyrddin yno i brisio nwyddau a thrysorau hynafol. Mae'n frwdfrydig i ddod eto cyn hir, felly, cadwch lygad ar agor am ddyddiad pellach.

Bydd rhai o gasgliadau'r Amgueddfa'n newid ddiwedd Awst, felly os nad ydych wedi gweld arddangosfa'r Rheilffordd, ac hanes Timothy Richard, Ffaldybrenin, dewch yn yr ychydig wythnosau nesa, - rhag ofn !

Er mwyn cynnal a datblygu'r casgliadau yn yr Amgueddfa, mae'n rhaid wrth arian. Mae raffl wedi cael ei threfnu, - i'w thynnu yn y Ffair Nadolig, - ond mae tocynnau ar werth yn barod, - £1 yr un. Yn ogystal, cyn hir, bydd yna daflenni cwis ar gael yn yr Amgueddfa am £1 yr un. Dewch i gefnogi a chael tipyn o hwyl yr un modd. Bydd yna ddyddiad penodedig i ddychwelyd y taflenni, a thynnir enw'r buddugol o het i ennill gwobr.

## Taith Cymdeithas Ddiwylliadol Shiloh a Soar

Ers blynyddoedd lawer, mae Twynog Davies wedi bod yn trefnu teithiau i Gymdeithas Ddiwylliadol Shiloh a Soar. Mae'r teithiau yn arfer denu pobol o'r tu fas i gylch y ddwy eglwys, a doedd eleni ddim yn eithriad.

Aeth llond bws ohonom o Llanbedr fore Sadwrn braf, 18 Mehefin. Cawsom ein tywys i bedwar atyniad gwahanol. Yr ymweliad cyntaf oedd Capel Blaenannerch a chael clywed hanes rhyfeddol Evan Roberts a Diwygiad 1904-05. Diolch i'r aelodau a'r gweinidog am y croeso a'r paneidiau te a choffi. Castell Aberteifi oedd yr ail ymweliad, ac roedd hi'n wych gweld yr holl waith caled sydd wedi bod ar y safle; pob dymuniad i'r Castell. Y trydydd atyniad oedd Y Gangell a Chapel Blaen-y-coed; yn Y Gangell y cafodd yr emynydd Elfed (1860-1953) ei eni, a daeth Elsbeth Page atom i roi peth o'i hanes. I Lanelli yr aethom ar gyfer y pedwerydd atyniad, sef Parc y Scarlets. Roedd hi'n agoriad llygad gweld y stadiwm a'r stafelloedd moethus.

Mwynhawyd pryd bywd yn Llangennech cyn troi am adre. Diolch yn fawr i Twynog am drefnu.


Ieuan Jones  
Adferwr Llundain  
Cwrtycadno



Gwasanaeth  
troi  
Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153  
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk  
Y we: cwrtphotorestoring.com



29, 30, 31 Awst 2015  
YSGOL BRO PEDR LLANBEDR PONT STEFFAN  
rtjllambd@steddfota.org

ANDREW JAMES  
PLYMWR PROFIADOL




Gwasanaethu boeler olew  
Gwres canolog  
Ystafelloedd ymolchi a cheginau  
Ffôn: 07811052757  
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a  
Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach  
cysylltwch â  
Georgina Cornock-Evans  
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw  
- Boileri a Ffyrnau Olew  
- Pymptiau Gwres o Ffynonhellau'r  
ddaebar a'r awyr  
- Paneli Thermal Solar  
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183  
aled.evans1@btinternet.com



Mared Jones, Swyddog Datblygu Cffi Ceredigion yn derbyn tusw o flodau ar lwyfan y Rali gan Emyr Evans ac Elgan Evans Swyddogion ar ddiwedd ei chyfnod wedi deg mlynedd a hanner yn ei swydd.

## C.Ff.I Ceredigion

Mis Mehefin- dyma un o fisoedd mwyaf prysur y Ffermwyr Ifanc gyda'r Rali a chystadlaethau Chwaraeon.

Gwelwyd tyrfa dda o aelodau a chefnogwyr brwdfrydig yn Rali Flynyddol C.Ff.I. Ceredigion ar ddydd Sadwrn 6ed o Fehefin. Enillwyr llynedd, Llanddewi Brefi, oedd yn cynnal y Rali ac yn darparu'r anifeiliaid ar gyfer y cystadlaethau barnu, yr holl stiwardiaid oedd angen, ynghyd â darparu'r gefnogaeth ariannol a noddwyr ar gyfer y diwrnod prysur hwn.

Cynhaliwyd y Rali ar fferm odidog Prysg drwy garedigrwydd Mr a Mrs Morlais Pugh a edrychai i lawr ar blwyf Llanddewi Brefi a chynhaliwyd y ddawns ar fferm Pistyll Gwyn drwy garedigrwydd Mr a Mrs Dafydd Lloyd-Jones.

Diolch i Brif Noddwr y Rali sef Nerys Llywelyn Jones o gwmni Agri Advisor a hefyd i Noddwyr y Cystadlaethau sef W.D. Lewis a'i Fab; Meithrinfa'r Dyfodol; Hybu Cig Cymru; Tai Ceredigion, Bwydydd For Farmers ac Arwerthwyr Morgan & Davies. Diolch enfawr hefyd i Mared ac Anne yn y Swyddfa am eu holl waith trefnu adeg y Rali.

Trwy gydol y dydd, roedd yna gystadlaethau yn dangos nifer helaeth o sgiliau – coginio, crefft, gosod blodau, coedwigaeth, cneifio, dawnsio, cabaret, Arddangosfa'r Prif Gylch ayyb, ac wedi denu tua 400 o aelodau'r sir gyda Talybont yn ennill y Rali gyda chlybiau Lledrod yn 2il a Llanwenog yn 3ydd.

Môr-Ladron a'r Moroedd Mawr oedd thema'r Rali eleni ac fe fydd yr enillwyr i gyd yn cynrychioli Ceredigion yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd ym mis Gorffennaf.

Uchafbwynt y dydd oedd coroni Enfys Hatcher, Brenhines C.Ff.I. Ceredigion am y flwyddyn. Cafodd ei hebrwng i'r llwyfan a oedd wedi ei addurno'n hyfryd, gan ei morwynion, Rhiannon Davies, Caerwedros, Elin Calan Jones, Llangwryfon, Lisa Jones, Pontsian a Sioned Davies, Llanwenog. Gyda nhw hefyd oedd Ffarmwr Ifanc y Flwyddyn, Dion Davies, Pontsian.

Enillwyr y Cystadlaethau: Arddangosfa Ffederasiwn – Llangwryfon; Barnu Gwartheg Charolais – 16 oed neu iau – Gethin Evans, Caerwedros; 21 oed neu iau – Dyfrig Williams, Llangwryfon; 26 oed neu iau – Dewi Jenkins, Talybont; Tîm buddugol – Talybont; Dylunio a Chreu Baner – Caerwedros; Coginio – Guto McAnulty-Jones a Calfin Hunt, Llangeitho; Gosod Blodau – Ceris Jones, Mydroilyn; Crefft – Carwyn Davies, Llanwenog; Cystadleuaeth yr Aelodau – Llanwenog; Dawnsio – Felinfach; Ocsiwn Ffug – Pontsian; Dyma Dy Fwyd – Tregaron; Coedwigaeth – Penparc; Barnu Defaid Beltex – 16 oed neu iau – Elin Rattray, Trisant; 21 oed neu iau – Lowri Reed, Llangeitho; 26 oed neu iau – Dewi Jenkins, Talybont; Tîm – Trisant; Trin Gwlan – Steffan Nutting, Talybont; Her y Môr-Ladron – Bro'r Dderi; Gwisgo i Fyny – Bro'r Dderi;

Cabaret – Llanwenog; Cneifio Defaid 21 oed neu iau – Steffan Jenkins, Llanwenog; 26 oed neu iau – Ceredig Lewis, Llangwryfon; Tîm – Tregaron; Barnu Merlod Adran A – 16 oed neu iau – Manon Turner, Llangeitho; 21 oed neu iau – Lowri Reed, Llangeitho; 26 oed neu iau – Gethin Morgan, Bro'r Dderi; Tîm – Llangeitho; Helfa Drysor – Lledrod;

Arddangosfa'r Prif Gylch – Bro'r Dderi; Tablo - Talybont; Tynnu'r Gelyn – Merched – Llanddewi Brefi; Tynnu'r Gelyn – Bechgyn – Llanwenog; Tynnu'r Gelyn – Iau – Llanwenog; Gwneud Arwydd – Felinfach; Barnu Stoc – Unigolyn Uchaf 16 oed neu iau – Manon Turner, Llangeitho; Unigolyn Uchaf 21 oed neu iau – Lowri Reed, Llangeitho; Unigolyn Uchaf 26 oed neu iau – Dewi Jenkins, Talybont; Unigolyn Gorau am y rhesymau yn y Gymraeg – Dewi



Enillwyr Tynnu'r Gelyn dynion yn Rali'r Sir oedd tîm Llanwenog a byddant yn cynrychioli Ceredigion yn y Sioe Frenhinol.

Jenkins, Talybont; Clwb Gorau yn y Barnu Stoc – Llangeitho; Ffermwyr Gorau'r Flwyddyn – Enfys Hatcher, Llanwenog a Dion Davies, Pontsian; Anrheg Goffa W.G.Hughes & W.D. Lewis – Caryl Haf Jones, Llanddewi Brefi a Geraint Jenkins, Talybont; Ysgrifennydd Clwb Gorau – Angela Evans, Tregaron; Aelod a dreuliodd yr amser hiraf ar daith ryngwladol – Gareth Harries, Llanddeiniol; Aelod mwyaf gweithgar y flwyddyn – Caryl Haf Jones, Llanddewi Brefi a Dion Davies, Pontsian; Aelod iau mwyaf gweithgar y flwyddyn – Rhodri Griffiths, Llangwryfon; Clwb gorau yng nghystadlaethau'r Sir 2014/15 – Buddugwyr – Llanwenog; ail fuddugol – Mydroilyn; Y clwb "bychan" gorau yng nghystadlaethau'r Sir 2014/15 – Lledrod.

Canlyniadau Terfynol y Rali: 1. Talybont; 2. Lledrod; 3. Llanwenog; 4. Felinfach; cydradd 5. Llangwryfon a Pontsian; 7. Penparc; 8. Trisant; 9. Tregaron; 10. Mydroilyn.

Cafwyd Gymanfa Ganu lwyddiannus yng Nghapel Bethesda, Llanddewi Brefi ar y Nos Sul, gyda Caryl Haf Jones yn arwain a Delyth Lloyd-Jones a Caryl Evans yn cyfeilio. Artistiaid y noson oedd aelodau Clwb Llanddewi Brefi. Llywydd y noson oedd Mr Ian Evans, Esgairmaen. Cafwyd te bendigedig yn Neuadd Llanddewi ar ôl y Gymanfa; diweddgo perffaith i benwythnos prysur.

Diolch i bawb ddaeth i ymweld â stondin C.Ff.I Ceredigion yn Sioe Aberystwyth. Braff oedd gweld cymaint o wynebau cyfarwydd. Fel sy'n draddodiad bellach, cafodd Swyddogion newydd y Sir daith o gwmpas faes y Sioe mewn cerbyd vintage arbennig.

Braff oedd gweld cymaint o aelodau a ffrindiau yng Nghlwb Rygbi Llambod ar gyfer y gystadleuaeth Rygbi 7 bob ochr a Rygbi Tag i ferched. Dyma'r tro cyntaf i ni gynnal cystadleuaeth i ferched a grêt oedd gweld 4 tîm yn cystadlu gyda Pontsian yn dod i'r brig. Caerwedros enillodd cystadleuaeth y 7 bob ochr i fechgyn; llongyfarchiadau mawr! Ar ddiwedd y cystadlu cynhaliwyd Rasys Ceiliogod- diolch i bawb wnaeth nodd i'r rasys ac i bawb wnaeth brynu ceiliog i sicrhau noson lwyddiannus llawn hwyl.

Ar ran holl aelodau'r Sir hoffwn ddiolch o waelod calon i Mared Rand Jones am yr holl gefnogaeth a chymorth rydym wedi derbyn dros y deg mlynedd diwethaf wrthi yn ei rôl fel Swyddog Datblygu'r Sir. Mae Mared wedi derbyn swydd newydd gydag Undeb Amaethwyr Cymru yng Ngheredigion; pob lwc iddi i'r dyfodol. Cyflwynwyd tusw o flodau i Mared yn y Rali gan Elgan Evans, Cadeirydd y Sir i ddiolch am ei gwaith diflino i'r mudiad.

Canlyniad Clwb 200 Mis Mehefin: 1af – Gareth a Sulwen Lloyd, Ucheldir, Cwrtnewydd; 2il – Eifion ac Elenid Jones, Talar Wen, Cwmsychpant; 3ydd – D & A E Lewis, Rhydybont, Tregaron.

I Ddod: Nos Wener, 3ydd o Orffennaf - 'It's a Knockout' Fforwm Ieuenctid, Celaeron; Nos Sul y 5ed o Orffennaf - Is-Bwyllgor Splash 2016; Nos Fercher y 15fed o Orffennaf - Pwyllgorau'r Sir, Canolfan Addysg Felinfach; Dydd Llun i Iau, yr 20-23ain o Orffennaf - Sioe Frenhinol, Llanelwedd.



**Cegin Gareth**  
Goedwig  
Llanbedr P.S.  
SA48 7JP  
01570 422 313

*Blodau*  
*Cacennau*  
*Dathliadau*  
*Partïon*

# Cwmsychpant



Sion Jenkins, Hafan y Cwm a'i dad Hefin yn cyflwyno siec o £1,000 i Dr. Asimakopoulos, Ymgynghorydd Triniaeth ar y galon, Ysbyty Royal Brompton, Llundain lle derbyniodd Hefin driniaeth nôl ym mis Tachwedd. Dathlodd Sion ei ben-blwydd yn 40 yn ddiweddar ac yn hytrach na derbyn anrhegion gwnaeth gasgliad i'r Uned lle derbyniodd Hefin y gofal gorau posib. Dymunwn fel teulu ddiolch i bawb a gyfrannodd.

## Pen-blwydd arbennig

Yng nghanol mis Mehefin dathlodd Euros Davies, Llys y Wawr ben-blwydd arbennig. Gobeithio i chwi fwynhau'r parti!

## BBQ a Tipit

Cynhelir BBQ a Tipit yng Nghapel y Cwm, nos Wener, Gorffennaf 3ydd am 7.30y.h. Croeso cynnes i bawb.

## Diolch

Dymuna teulu'r diweddar Mrs Nancy Davies, Grugwen [Tyngrug Uchaf] ddiolch o waelod calon i bawb - boed yn gymdogion a ffrindiau o bell ac agos am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ar adeg eu galar o golli mam, mam-gu a hen-fam-gu annwyl. Diolch am y pentwr cardiau a'r holl roddion a dderbyniwyd ar yr aelwyd ar yr adeg hynny. Gwerthfawrogir pob gair a gweithred yn fawr iawn.



Mwy na brocer yswiriant.  
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?  
Yswirio'n lleol.

**Gwasanaethau Yswiriant FUW**  
21 Stryd Fawr, Llanbed  
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556  
Carys Davies: 07890 883346  
Gwion James: 07980 608337

[www.fuwinsurance.co.uk](http://www.fuwinsurance.co.uk)

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.



CELFY CEGIN A 'STAFELL  
WELY, ATELOGION CEGIN  
WEDI EU FFITIO,  
TEILS WAL A LLAWR

DOLGADER,  
SGWAR Y FARCHNAD,  
LLANYBYDDER

**01570 480257**

**Mae'n amser o'r flwyddyn i ymaelodi â Chlwb Clonc. Dim ond £5 yr aelod. Dychwelwch y ffurflen archeb banc isod. Gwobrau hael bob mis a chefnogi'ch papur bro yr un ffordd.**

## CLWB CLONC

Os na wnaethoch gytundeb archeb Banc y llynedd dyma gyfle i chwi wneud eleni. Bydd cael archeb Banc yn arbed llawer o waith i gasglu'r arian yn flynyddol. Llenwch y manylion isod a'i anfon yn ôl i:

Mrs Mary Davies, Maesglas, Drefach, Llanybydder, Ceredigion. SA40 9YB.  
Wrth gwrs os hoffech barhau i dalu â siec neu arian parod mae croeso i chwi wneud hynny o hyd. Llenwch y rhan gyntaf o'r ffurflen a'i hanfon yn ôl gyda'r arian i'r cyfeiriad uchod.

Byddwn yn falch ei dderbyn mewn unrhyw ffordd, er mwyn parhad CLONC.



ENW: .....

CYFEIRIAD: .....

CÔD POST: ..... RHIF FFÔN: .....



## ARCHEB BANC / STANDING ORDER

I / To [eich banc chwi / to your bank] ..... Banc / Bank

Rhif didoli / Sort Code: ..... - - .....

Cyfeiriad y Banc / Bank Address: .....

Taler / Please pay Nat West, Llanbedr Pont Steffan 53-61-42

I gyfrif / for the credit of CLWB CLONC Rhif cyfrif: 03451526

Y swm o / the sum of £

I ddechrau ar / commencing 1af o Orffennaf 2015  
1st July 2015 Ac yn flynyddol wedi hynny ar Orffennaf 1af  
Thereafter annually on 1st July

nes y derbyniwch rybudd pellach gennyf drwy lythyr / until you receive further notice with me in writing.

Enw'r cyfrif i'w ddebydu / Name of account to be debited: .....

Rhif y cyfrif banc / Account no: ..... Llofnod / Signature: .....



## Adroddiad Ras y Llychau



Nos Wener 22ain o Fai, cynhaliwyd Ras y Llychau sy'n cael ei threfnu gan gapten y clwb David Thomas gyda chefnogaeth teulu Tanrhos. Cynhaliwyd y ras hon gyntaf nôl yn y flwyddyn 2000, er mwyn codi arian i'r ysgol a neuadd yr eglwys a gwerthfawrogi haelioni D.L Williams, sydd â dwy siop yn Llambod a chanolfan adeiladu yn Talyllchau, am eu bod wedi noddi'r ras ers y cychwyn cyntaf. Gwelwyd 24 yn cymeryd rhan yn y ras filltir i blant nôl yn 2000 ond ar noson sych a chynnes yn 2015 cafwyd 88 o blant cynradd dewr ar y llinell gychwyn yn barod i redeg cwrs digon heriol. Gwelwyd neb llai na Rhys Williams o Sarn Helen yn parhau a'i lwyddiannau trwy ennill y ras mewn amser arbennig o 6.39, ond 29 eiliad yn arafach na'r record a chafodd ei osod gan Irfon Thomas yn 2000; yn dilyn yn agos iawn yn yr ail safle oedd Jack Caulkett, Sarn Helen mewn 6.42 ac yna yn y trydydd safle mewn 6.56 oedd Scott Price o Ysgol Rhys Prichard. Llwyddodd Seren James, Sarn Helen hefyd i gynnal ei llwyddiant drwy ennill ras y merched mewn amser o 7.27, gyda'i ffrind a'i chyd aelod o'r clwb Gwennlian Llwyd Jones yn rhoi ras dda iddi gan orffen mewn 7.34 ac Ella Davis, Harriers Caerfyrddin, yn gorffen yn 3ydd mewn 7.52. Cafwyd cynrychiolaeth dda o ieuenctid Sarn Helen yn y ras gyda'r canlyniadau fel a ganlyn: Jamie Jones 7.06, Rhodri Gregson 7.28, Llyr Davies 7.47, Llyr Rees 8.54, Tia Deacon Jones 8.57, Sara Thomas 8.59, Maddie Caulkett 9.53 a Violet Caulkett 10.22. Mae ras 5k yr oedolion yn dechrau a gorffen ger yr abaty a cheir golygfeydd godidog ar hyd y daith er nad yw'n cael ei werthfawrogi'n llawn gan y rhedwyr gan fod hon yn ras gyflym a heriol. Roedd yna 156 o redwyr eleni o'i gymharu â'r 43 yn y ras gyntaf yn 2000 gyda nifer o blant uwchradd yn cymeryd rhan yn eu ras 5k cyntaf. Enillydd y ras oedd Christian Lovatt o Harriers Abertawe, a orffennodd mewn amser anhygoel o 16.15 ond nid oedd yn ddigon cyflym i dorri record Lewys Hobbs, Harriers Abertawe o 15.50 yn 2003. Jack Tremlett, Trots oedd yn 2il dros y llinell mewn 17.08 gyda Ken Caulkett o Aberystwyth AC yn 3ydd mewn 17.23. Y rhedwr cyntaf o Sarn Helen i groesi'r llinell derfyn a'r cyntaf yn y dynion 40 oedd y beiciwr Gareth Payne a lwyddodd i ddangos ei fod yr un mor gyflym ar ei draed ac ydyw ar ei feic gan orffen mewn 17.39. Aeth 2il safle'r dynion 40 i Daniel Hooper, Sarn Helen mewn 18.30 a fe hefyd oedd y dyn lleol cyntaf i orffen y ras. Peter Osborne o Llanelli Aac oedd y 3ydd D40 mewn 18.37. Enillydd categori y bechgyn dan 18 oedd Archi Morgan, Harriers Caerfyrddin mewn 18.49 gyda Teilo Stone, Ysgol Bro Dinefwr yn yr 2il safle mewn 19.07, a brawd ieuegaf Christian Lovatt, sef Callum Lovatt o Harriers Caerfyrddin oedd yn 3ydd mewn 19.14. Enillydd ras y merched a'r category merched 35 oedd Elizabeth Tremlett, Trots mewn amser arbennig o 20.10 a hyn llai na 6 mis wedi iddi ddychwelyd i redeg arol cael ei phlentyn cyntaf! Melissa Watson, hefyd o Trots, ddaeth yn 2il merched 35 mewn 21.28, gyda Rachel Allcock, Amman Valley yn 3ydd Merched 35 mewn 21.43. Yn ail yn ras y merched ond yn gyntaf yn y categori agored oedd Sian Trace, Amman Valley mewn 20.19 gyda Caryl Davies, Sarn Helen yn ail mewn 21.48 a Katie McDermott, Sarn Helen yn 3ydd mewn 24.08. Y drydedd ferch yn y ras ac yn ennill categori y merched dan 18 oedd Pheobe Davis, Harriers Caerfyrddin mewn 20.49, gyda'r ail safle yn mynd i Rebecca Thorne, Amman Valley mewn 24.07 a Rosie Davies, Ysgol Bro Dinefwr yn 3ydd mewn 28.29. Ynghanol y 156 o redwyr roedd nifer fawr o redwyr cryf Sarn Helen wedi llwyddo i orffen mewn amseroedd da: Sion Price 18.13, Carwyn Davies 18.16, Kevin Regan 18.44, Michael Davies 18.45, Simon Hall 18.59, Steven Holmes 19.06, Richard Marks 19.22, Nigel Davies 20.01, Huw Price 20.31, Glyn Price 20.32, Gwion Griffiths Payne 21.05, Murray Kisbee 22.26, Sian Roberts-Jones 22.40, Haydn Lloyd 22.55, Eleri Rivers 23.01, Carys Davies 25.13, Fiona Jones 25.51, Heather Hughes 28.00, Naomi

Howell 28.37, Wendy Readwin 28.39, Isabella Caulkett 29.05, Emma Gray 31.38, a'r anhygoel Jane Holmes 32.28, a oedd yn aros am lawdriniaeth i geisio cael gwared o'r cancer ar ei hysgyfaint pan redodd y ras hon, a Gwen Thomas 32.50. Erbyn hyn rydym yn falch iawn o gyhoeddi fod Jane wedi derbyn y lawdriniaeth sydd wedi bod yn llwyddiant, felly adferiad da iddi oddi wrth bawb o'r clwb.

## Ras y Cestyll 2015



Dyma un o uchafwyntiau'r flwyddyn i'r clwb wrth i'r aelodau geisio'i gorau glas o flaen llaw i fod yn un o'r 20 rhedwr cyflymaf er mwyn bachu eu lle yn nhim Sarn Helen o Ras Gyfnwid Cestyll Cymru. Gyda chyfanswm o dros 200 milltir dros 2 ddiwrnod, 20 cymal a 65 o dimoedd, fe ddechreuodd y ras yng Nghastell Caernarfon ar fore Sadwrn 6ed o Fehefin gan aros dros nos yn y Drenewydd cyn ail gychwyn fore sul am 7 o'r gloch a gorffen yng Nghastell Caerdydd. Ein 20 rhedwr brwdfrydig oedd Sion Price, Gethin Jones, Carwyn Davies, David Thomas, Richard Marks, Nigel Davies, Michael Davies, Kevin Regan, Dawn Kenwright, Carwyn Thomas, Llywelyn Lloyd, Glyn Price, Andrew Davies, Tim Jones, Simon Hall, Tony Hall, George Eadon, Caryl Davies, Sian Roberts-Jones a Kevin Hughes. Er gwaetha'r tywydd gwyntog ar ddydd sadwrn a'r gwres ar y dydd sul, llwyddodd pawb i gael ras dda yn enwedig Nigel Davies a enillodd y teitl "veteran Stage winner" am redeg o'r Bermo i Dolgellau. Roedd Sarn Helen yn cystadlu yn erbyn clybiau mawr fel Serpentine o Lundain a Les Croupiers o Gaerdydd ond er ein bod ni'n glwb gymharol fach o'i gymharu,



fe wnaethon ni ddal llwyddo i gael ein amser a'n safle gorau gan ddod yn 10fed clwb agored a'r 6ed clwb yng Nghymru mewn amser o 23 awr 01 munud 30 eiliad. Hoffai'r clwb ddiolch yn fawr iawn i Dylan a Margaret Thomas (Ivor Thomas Scrap) am eu haelioni eleni eto gan noddi bws y clwb a oedd yn cludo'r rhedwyr a'r cefnogwyr yn ystod y penwythnos. Ond oni bai am ddau berson allweddol, ni fyddai'r penwythnos wedi bod yn bosibl i dim Sarn Helen, felly mae'n diolch ni yn fawr i Lyn ac Eileen Rees Tanrhos am eu holl gwaith a'u hamser i drefnu'r cyfan. Rydym yn edrych ymlaen yn barod at Ras y Cestyll 2016!

## Adran y Plant

Gwelwyd aelodau Sarn Helen yn gwneud yn arbennig o dda yn mablgompau Sir yr ysgolion uwchradd yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar wrth iddynt gynrychiolu Ysgol Bro Pedr, gyda nifer ohonynt yn derbyn gwobrau ac yn mynd drwodd i'r rownd nesaf. Y rownd nesaf oedd pencampwriaeth ysgolion Dyfed a chafodd ei gynnal Ddydd Sadwrn Mehefin 6ed ar y trac yng Nghaerfyrddin ac unwaith eto llwyddodd aelodau'r clwb i wneud yn arbennig o dda ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn: Merched bl 7: Beca Ann Jones 4ydd yn ei rhagras 200m, Beca Roberts 3ydd yn yr 800m. Merched bl 9: Grace Page yn 5ed yn y 300m a 4ydd yn yr 800m. Merched ysgol ganol: Caitlin Page 1af yn y 1500m. Bechgyn bl 7: Llywelyn James 2il yn rhagras y 200m, 4ydd yn ffeinal yr 800m a Gwion Payne 6ed yn y 1500m. Bechgyn ysgol ganol: Thomas Willoughby 3ydd yn y 400m.



Llongyfarchiadau i bob un ohonynt. Cafwyd canlyniadau da yn y ras hwyl yn Aberaeron ar Ddydd Sul 24ain Mai, gyda'r dref glan môr wedi denu nifer o redwyr a chefnogwyr. Rhys Williams, Sarn Helen sy'n 9 oed ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth oedranau 6-11oed, gyda Jack Caulkett a Gwen Thomas yn gorffen yn 4ydd yng nghategori oedran 11-14. Roedd chwirydd Jack; Violet a Maddie Caulkett a chwaer Gwen, Sara Thomas hefyd yn cynrychioli'r clwb yn ras y plant. Roedd teulu'r Caulkett's yn brysur iawn yn cefnogi'r ras Tenovus 5k a 1.5k yn Aberystwyth ar y 21ain o Fehefin wrth i Jack ennill y ras 5k i'r bechgyn yn y categori ieuencid mewn 22.33 a'i chwaer Isabella yn ennill ras y merched yn yr un categori mewn 27.46. Yna yn y ras 1.5k gorffennodd Sean Wood mewn 7.23, Violet Caulkett mewn 7.28 a Maddie Caulkett mewn 7.30. Rydym yn ymfalchio fel clwb yn llwyddiant dwy o'n merched sef Ffion Quan a Caitlin Page sydd wedi cael eu dewis i gynrychioli eu gwlad mewn tim o dair yng nghystadleuaeth cwpan ieuencid rhyngwladol rhedeg mynydd y Byd. Mae'r gystadleuaeth hon yn cymeryd lle yn Bulgaria ar y 27ain o Fehefin, felly dymuniadau gorau iddynt ac fe gewch chi ddarllen eu hanes yn rhifyn nesaf Clonc.

## Canlyniadau eraill

Mae Ras yr Hafod ger Pontrhydygroes yn ras 10k sy'n dilyn llwybrau coedwig heriol ac yn cynnig golygfeydd prydfarth i'r rhai sy'n mentro tynnu eu llygaid oddi ar y llwybr i'w gwerthfawrogi! Fe aeth 4 o'r clwb i redeg y ras gyda Dylan Lewis yn cipio'r ail safle a Nigel Davies, Ormond Williams a'i fab Gwydion yn cael ras dda.

Bu rhai o'n rhedwyr yn ras hwyl Aberaeron ar Ddydd Sul gŵyl y banc gyda Sarn Helen yn cipio'r ail safle yn ras y dynion a ras y menywod. Dylan Lewis ddaeth yn ail i'r rhedwr rhyngwladol Felipe Jones a Carys Davies ddaeth yn ail i Jane Wilkins o glwb rhedeg Aberteifi. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt ac i aelodau eraill o'r clwb a gymerodd rhan.

Yna ar Ddydd Llun gŵyl y banc, ar lwybr arfordir Sir Benfro cynhaliwyd ras flynyddol Dinas Head. Cafodd Glyn Price ras arbennig gan orffen y cwrs 4.7 milltir yn 4ydd mewn 32.34 gyda Simon Hall yn gorffen mewn 34.23, Tony Hall yn ennill y categori dynion 60 mewn 38.57, a Dee Jolly yn ennill ras y merched mewn 41.20.

Ar nos Wener 29ain o Fai, cynhaliwyd ras newydd yn Llandeilo a elwid "Three parks challenge" a oedd yn ras 10k yn mynd a'r rhedwyr ar lwybrau a tharmac trwy Parc Dinefwr a chastell Dinefwr. Gwelwyd dros 70 o redwyr a phump ohonynt o Sarn Helen. Simon Hall groesodd y llinell derfyn gyntaf allan o redwyr y clwb mewn 40.48, yna Nigel Davies mewn 44.00 ac yn dynn iawn ar ei ysgwyddau oedd David Thomas 44.04, Tony Hall mewn 45.42, gydag unig ferch y clwb Sian Roberts-Jones yn gorffen yn 4ydd merch mewn 48.00.

Yn ail gyfarfod cynghrair Meistri Cymru yn y Barry ar yr 28ain o Fai, llwyddodd Richard Marks i orffen yn gyntaf yng nghategori y dynion 60 yn y 1500m a'r 3000m, gyda'i amser o 5 munud 6 eiliad (1500m) a 11 munud 28 eiliad (3000m), sy'n ei roi mewn safle da iawn gyda dau gyfarfod yn weddill o'r gynghrair.

Cynhaliwyd 4ydd hanner marathon yr wyddfa yn Llanrwst ar Fai 31ain gyda Dawn Kenwright yn rhoi cynnig iddi am y 3ydd tro. Roedd ei chryfder a'i phrofiad yn amlwg ar y cwrs heriol hwn wrth iddi orffen yn drydedd merch ac ennill categori y menywod 55 mewn amser o 1.53.24. Nos Iau 11eg o Fehefin, roedd ras flynyddol 10k Bwlch Y Groes. Llwyddodd Nigel Davies fachu tarian wrth iddo orffen yn bumed yn y ras ond yn gyntaf yng nghategori y dynion 40 mewn amser o 45.11. Aelod arall yn cynrychioli'r clwb oedd Gareth Jones a orffennodd mewn amser o 1:01:30. Roedd Gareth hefyd yn cynrychioli'r clwb yn ras Llys y Fran ar ddydd Sul 14eg, gyda'r cwrs yn dilyn llwybr o amgylch llyn Llys y Fran ynghanol mynyddoedd y preseli a gorffennodd Gareth mewn 49.34. Glyn Price enillodd y ras mewn 34.22 gan hedfan baner Sarn Helen yn uchel! Bu'n rhedwraig rhyngwladol Dawn Kenwright yn parhau i ddangos ei thalent drwy redeg ras llwybr 15km Dysynni yn Tywyn ar ddydd Sadwrn 13eg o Fehefin gan ennill categori y merched 50 yn ogystal â fod y bedwaredd ferch i groesi'r llinell derfyn mewn 1 awr 6 munud.

Rhedwr arall sy'n parhau i ddangos ei dalent yw Tony Hall wrth iddo hedfan i Jersey er mwyn rhedeg hanner marathon ar ddydd Sul 14eg o Fehefin. Roedd y tywydd yn beffaith ac roedd yna olygfeydd godidog ar hyd y cwrs yn ogystal â sawl dringfa heriol ond nid oedd hyn yn poeni Tony wrth iddo orffen mewn amser arbennig o 1:33:51 ac yn 2il yng nghategori y dynion 60, 10 eiliad arol y cyntaf! Dangosa'r canlyniad hyn fod yr holl waith caled a'i ymrwiniad yn talu ffordd.

Yn ôl yng Nghymru fach ar yr un diwrnod cynhaliwyd hanner marathon Abertawe gyda rhai o ferched y clwb yn rhoi cynnig arni. Llwyddodd Carys Davies, a oedd yn rhedeg ei ail hanner marathon, i orffen 3 munud yn gynt mewn amser o 1:56, Fiona Davies mewn 1:59, Non Edwards mewn 2:06 ac

Emma Gray a oedd yn rhedeg ei hanner marathon cyntaf yn gorffen mewn 2:31. Da iawn ferched.



Dydd Sadwrn 20fed o Fehefin cynhaliwyd marathon ac hanner marathon "Trail Marathon Wales" yn Coed y Brenin ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Dyma'r 4ydd tro i'r ras yma gymeryd lle ac er ei bod hi'n gwrs anodd mae rhedwyr Sarn Helen wrth ei bodd â hi ac eleni fe aeth 2 o'n rhedwyr i redeg y marathon a 7 i redeg yr hanner marathon. Fe orffennodd Nigel Davies y marathon mewn 3.52.18, 21 munud yn gynt na llynedd - Mae hyn yn brawf fod Nigel yn gwneud rhywbeth yn iawn!! Steven Holmes oedd yr ail redwr i redeg y marathon ac er nad yw wedi ymarfer yn iawn ar gyfer y ras yma, fe wnaeth orffen mewn amser da iawn o 3.56.09 er ei fod 7 munud yn arafach na'i amser gorau ar y cwrs. Roedd Steven hefyd yn rhedeg i'w wraig Jane Holmes er mwyn codi arian i'r "Roy Castle Lung Cancer Foundation" ac os oes rhywun eisiau noddi gallwch ddal gwneud trwy [www.justgiving.com/StevenHolmes0](http://www.justgiving.com/StevenHolmes0). Yn yr hanner marathon llwyddodd Glyn Price orffen yn safle 13 ond 5ed yn y dynion 40 mewn amser o 1.38.02, Kevin Hughes 1.51.19, Tony Hall 1.56.22 gan ennill categori y dynion 60, Carys Davies 1.58.30, 10 munud yn gyflymach na'i amser gorau ar y cwrs, Dawn Kenwright 2.06.51 ac yn ail yn ei chategori oedran, Eleri Rivers 2.10.11 a Terry Jones 2.11.05 a 10 munud yn gyflymach na'i amser gorau ar y cwrs. Llongyfarchiadau i bawb! Cynhaliwyd Tenovus 5k ar y Prom yn Aberystwyth ar dydd Sul 21ain o Fehefin er mwyn codi arian i'r elusen. Gorffennodd Carwyn Davies y ras mewn 17.26 ac yn 3ydd dynion agored a daeth Dee Jolly yn 2il menywod agored mewn 22.04, Mitchell Readwin 22.40 ac Allen Watts 44.00.

## Clwb beicio Sarn Helen

Cymerodd Chris Schroder ran mewn "Bikefest" ym Mryste ar Fehefin 13eg gan dreulio 12 awr ar ei feic yn teithio 110 o filltiroedd. Fe orffennodd Chris yn y bumed safle ac yn ail yn ei categori oedran ac roedd ei berfformiad yn ei osod mewn safle addawol iawn ar gyfer yr enduro yn Coed y Brenin yn hwyrach yn y flwyddyn.

Aeth pedwar aelod o'r clwb ynghyd â 15,000 o feicwyr eraill i gymeryd rhan yn Velothon Cymru a oedd yn dechrau a gorffen yng Nghaerdydd ar Fehefin 14eg. Carys Wyn Davies, Paul Edwards, Simon Edwards a Paul McDermott oedd y pedwar a fentrodd i feicio 140km a oedd yn teithio tua Casnewydd, Usk, Abergavenny, ac yna nôl i Gaerdydd trwy Gaerffili. Dywedodd Paul McDermott "Roedd e'n achlysur arbennig ac roedd hi'n gyffrous iawn i feicio ar heolydd oedd wedi'u cau a hynny ynghanol tyrfaoedd o bobl. Rwy'n gobeithio ei wneud eto y flwyddyn nesaf."

Ras nesaf Sarn Helen: "Cwmann 5" - Nos Wener Gorffennaf 10fed 6.30 y.h. plant, 7.30 y.h. oedolion

**£17.50 yw pris Tanysgrifiad Blwyddyn Papur Bro Clonc.**  
**Beth am ei brynu fel anrheg i rywun?**  
**Cysylltwch â Mary, ysgrifenyddes Clonc**  
**[ysgrifennydd@clonc.co.uk](mailto:ysgrifennydd@clonc.co.uk)**



**Enw:** Carwyn Lewis

**Oed:** 25

**Pentref:** Cwmann

**Gwaith:** Gosodwr carpedi

**Partner:** Rosie

**Teulu:** Mam, Dad, Simon, Rhian, Louise, Dylan, Betsan a Lowri

**Unrhyw hoff atgof plentyndod.**

Mynd i gêm Lerpŵl yn Anfield a gwbod dim am y peth.

**Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.**

Sam Tân achos roedd dad yn ddyn tân.

**Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.**

Trin pobol fel lichen i cael fy nhrin.

**Y CD cyntaf a brynast di erioed?**

Shaggy, wasn't me!

**Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?**

Gosod carpedi pan mae'n bwrw glaw a ffermio pan mae'n sych.

**Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?**

Mas 'da'r bois ar y penwythnos.

**Beth yw dy lysenw?**

Carpets.

**I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?**

Mike Phillips?

**Pwy yw dy arwyr?**

Johna Lomu.

**Taset ti'n fisged, pa fath fyddet ti a pham?**

Chocolate digestives. Hits the spot.

**Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?**

Mynd i wahanol lefydd pob dydd a gweld pobol wahanol.

**Y peth gorau am yr ardal hon?**

Pawb yn nabod pawb.

**Y peth gwaethaf am yr ardal hon?**

Popeth mor bell i fynd i neud pethe.



**Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?**

Cymraeg.

**Pryd llefaist ti ddiwethaf?**

Diwrnod ar ôl torri coes. Roedd y morfine wedi cico mewn.

**Pryd chwydaist ti ddiwethaf?**

Ar ôl yfed sudd oren ar ôl yr operation.

**Pryd est ti'n grac ddiwethaf?**

Wthnos dwetha da'r defed.

**Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?**

Yn gwely da Rhys Jones a'i fraich drosto fi.

**Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?**

Myfyriwr y flwyddyn 2 flynedd yn olynol yng Ngholeg Wrecsam.

**Ac yn bersonol?**

Cynrychioli Cymru yn kickboxing a thynnu'r gelyn.

**Disgrifia dy hun mewn tri gair.**

Tall dark handsome.

**Beth yw barn pobl eraill amdant ti?**

Bach o strab. Gobitho ha.

**Pa gar wyt ti'n gyrru?**

Pickup neu fans gwaith.

**Beth yw dy hoff wisg?**

Trwser Canterbury.

**Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?**

Beyonce.

**Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?**

Pitza.

**Beth yw dy ddiod arferol?**

Pepsi max.

**Beth yw dy hoff arogl?**

Cino Dydd Sul.

**Sut wyt ti'n ymlacio?**

Wâc rownd y defed.

**Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi**

**fwyaf aml?**

Texel sheep society.

**Sawl tecst y dydd wyt ti hala?**

50 ish.

**Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?**

Rhys Barrels.

**Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?**

Fast and furious 7.

**Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?**

Penol.

**Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?**

Yr iphone.

**Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?**

Ffermio.

**Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?**

Dafad.

**Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat ti?**

Dad-cu - David Tom.

**Pwy sy'n ddylanwad arnat ti nawr?**

Dad a 'Charlie'.

**Y gwyliau gorau?**

Paris 'da Rosie.

**Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet ymweld â nhw cyn dy fod yn hanner cant?**

Ynys Môn, Yr Wyddfa a Phen y fan.

**Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?**

Seland Newydd, Awstralia a Thailand.

**Ble fyddi di mewn deng mlynedd?**

Dim fan hyn.

**Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:**

Enw: Anwen Jones

Pentref: Llanfihangel ar arth

## Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw  
Cyfeiriad

Cod post  
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET  
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc  
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

|   |   |   |   |   |   |   |   |   |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
|   | 9 |   | 2 |   | 7 |   |   |   |
|   |   |   |   | 8 |   | 9 |   |   |
| 4 |   |   |   |   | 9 |   | 7 | 5 |
|   |   |   | 4 | 5 |   |   |   |   |
|   | 5 | 2 |   |   |   | 4 | 3 |   |
|   |   |   |   | 3 | 1 |   |   |   |
| 7 | 4 |   | 5 |   |   |   |   | 8 |
|   |   | 6 |   | 1 |   |   |   |   |
|   |   |   | 8 |   | 3 |   | 5 |   |

## Atebion Swdocw mis Mai:

Llongyfarchiadau i: Delyth Edwards, Deluan, Llansawel, a diolch i bawb arall am gystadlu: Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder a Glenys Davies, Gellir Aur, Llanybydder.

|   |   |   |   |   |   |   |   |   |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 5 | 3 | 9 | 7 | 8 | 4 | 2 | 6 |
| 8 | 2 | 7 | 1 | 4 | 6 | 3 | 5 | 9 |
| 9 | 4 | 6 | 5 | 3 | 2 | 7 | 1 | 8 |
| 4 | 6 | 2 | 3 | 5 | 1 | 8 | 9 | 7 |
| 5 | 7 | 1 | 6 | 8 | 9 | 2 | 3 | 4 |
| 3 | 8 | 9 | 7 | 2 | 4 | 1 | 6 | 5 |
| 6 | 9 | 4 | 8 | 1 | 3 | 5 | 7 | 2 |
| 7 | 1 | 8 | 2 | 6 | 5 | 9 | 4 | 3 |
| 2 | 3 | 5 | 4 | 9 | 7 | 6 | 8 | 1 |

# Drefach a Llanwenog

## Diolch

Dymuna Teulu Maesymeillion a Theulu Blaenbronfaen ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam, mam-gu a chwaer annwyl yn ddiweddar, sef Mrs. Brenda Thomas.

## Cartref newydd

Croeso cynnes i Caryl, Andrew a Hari Jac sydd wedi symud i fyw yn Cornel. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â Mrs Mair Davies, Dolwerdd a theulu Maesglas ar golli chwaer yng nghyfraith a modryb annwyl sef Mrs Nanna Thomas o Faes-y-meillion.

## Y Gymdeithas Hŷn

Y Bermo, neu Abermawddach i roi eu henw llawn, oedd cyrchfan taith mis Mehefin. Aros ym Machynlleth am 'baned, a chael tua awr i edrych o gwmpas stondinau'r farchnad, sy'n hynod boblogaidd bob dydd Mercher yn y dref. Ymlaen wedyn i'r Bermo, a threulio prynhawn hamddenol ger y môr a'r harbwr, yn mwynhau'r olygfa. Roedd yna ambell un yn teimlo'n fwy egniol, ac yn mentro cerdded ar draws y bont dros aber yr afon. Braf oedd cael cwmni Twynog Davies y tro yma, a chael hanes yr ardal y mae mor gyfarwydd â hi.

Nôl wedyn i Machynlleth am swper, a chael pryd da yn y Llew Gwyn ar y ffordd adre. Tristwch unwaith yn rhagor oedd cydymdeimlo â dwy o'r aelodau, sef Kate Davies ac Eirwen Evans, wedi colli chwaer a chwaer-yng-nghyfraith.

Bydd y trip nesa dydd Mercher, Gorffennaf 8fed, yn mynd i Gastell Cydweli a Pharc Howard Llanelli. Enwau i Yvonne 480590.

## 18 oed

Dathlodd Steffan Evans, Murmur y Nant ei ben-blwydd yn 18 oed ynghanol mis Mehefin.

## C.Ff.I. Llanwenog

Mehefin - un o fisoedd mwyaf prysur CFFI Llanwenog efo'r aelodau oll yn paratoi ar gyfer y Rali blyneddol a gynhaliwyd leni gan CFFI Llanddewi ar y 6ed o Fehefin. Roedd yn ddiwrnod pwysig i'r clwb efo Enfys Hatcher yn cael ei choroni fel brenhines y sir a Sioned Davies fel un o'r morwynion oedd yn wir un o uchafbwyntiau'r diwrnod. Yn ogystal â bod yn ddiwrnod pwysig, roedd hi hefyd yn ddiwrnod llwyddiannus efo'r Clwb yn dod yn 3ydd ar ddiwedd y cystadlu ac yn cipio'r Cwpan Gwynne unwaith yn rhagor - da iawn chi! Fe lwyddodd



Carwyn Davies CFFI Llanwenog yn ennill y Cwpan yng nghystadlaethau yr aelodau - Crefft

Gethin Hatcher, Enfys Hatcher, Gwawr Jones, Lowri Wilson, Lauren Jones, Meinir Davies, Alpha Evans a Hanna Davies dod i'r brîg yng nghystadlaethau y 'Cabaret', pob hwyl i chi gyd wrth i'r criw fynd ymlaen i gynrychioli'r sir yn Llanellwedd yn y Sioe Frenhinol. Fe ddaeth llwyddiant hefyd i Carwyn Davies yn yr adran grefft, a fydd ef hefyd yn mynd ymlaen i gystadlu yn y Sioe mis nesaf. Da iawn hefyd i Iwan Evans a Ffion Jenkins a ddaeth yn 2il yn y coginio, a Sophie Jones oedd yn 5ed yn y gystadlaeth gosod blodau. Llwyddwyd i gipio y safle cyntaf i ennill Cwpan yr Aelodau yn y Rali. Llongyfarchiadau mawr i Steffan Jenkins a ddaeth yn fuddugol yn y gystadlaeth cneifo ac hefyd yn mynd ymlaen i Llanellwedd ynghyd â thimau bechgyn hŷn ac iau 'tynnu'r gelyn' y clwb - pob lwc i chi gyd!

Wedi i bwrlwm y Rali ddod i ben cafwyd noson o ymlacio yn 'go cartio' ar yr 8fed, ac ar y 15fed cafodd y clwb wâc i Gei Newydd a noson o joio mas draw. Cafwyd noson o joio hefyd ar y 19eg yng nghystadlaethau Rygbi 7 bob ochr yng Nghlwb Rygbi Llanbed - da iawn i'r bois a ddaeth yn 2il ar ddiwedd y cystadlu. Ar yr 22ain cafwyd 'taith ddirgel' i peapod junction i beintio crochenwaith.

Os oes gennych ddiddordeb ymuno efo'r clwb neu eisiau rhagor o wybodaeth cewch i'r wefan: [www.cffillanwenog.org.uk](http://www.cffillanwenog.org.uk)

## Ysgol Llanwenog

Bu plant Cyfnod Allweddol dau ar ymweliad addysgiadol gyffrous iawn i Dŷ Ddewi yn ddiweddar. Cawsant gyfle i ymweld â'r Eglwys Gadeiriol a gwneud nifer iawn o weithgareddau mathemategol o fewn y muriau, yn ogystal ag ymweld â Ty'r Pererin i wneud gweithgareddau Celf. Cafwyd y pleser o gwmni y Ficer Suzy ar y daith hefyd. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn i aelodau Eglwys Santes Gwenog am eu haelioni wrth dalu am gostau



Gwawr a Lowri CFFI Llanwenog gyda chwpan y Cabaret yn Rali'r Sir.

teithio'r plant.

Bu'r adran Iau hefyd yn Theatr Felinfach i weld sioe theatrig yn portreadu cyfrol T Llew Jones - Lleuad yn Olau. Gwelwyd perfformiad bywiog, doniol a diddorol a chafodd pawb brynhawn dymunol.

Daeth Miss Mattie i'r ysgol i weithio gyda'r plant ac i gyflwyno gwers Wyddoniaeth. Roedd y plant wrth eu bodd gyda'i ffordd unigryw o gyflwyno'r pwnc.

Fel rhan o gynllun pontio Meithrin / Cyfnod Sylfaen bu pump o ddisgyblion y meithrin yn yr ysgol am sesiynau yn cynnwys gweithgareddau amrywiol ac er mwyn dod i adnabod disgyblion y dosbarth cyn eu bod yn dechrau'r ysgol ym mis Medi.

Cynhaliwyd diwrnod mabolgampau'r ysgol a gwelwyd cystadlu brwd rhwng y ddau dŷ sef Gwenog, a Cledlyn. Roedd yn ddiwrnod crasboeth a daeth tyrfa dda i gefnogi'r plant. Diolch arbennig i aelodau'r W I am ddod yn ôl eu harfer i gyflwyno rhubanau i'r buddugwyr a hefyd i baratoi te amheuthun ar gyfer y plant. Y ddau gapten buddugol oedd Molly Greenfield a George Labram o dîm Gwenog.

Cynhaliwyd Noson Hwyl yr Ysgol ar nos Wener yr 19 eg. Bu'r plant yn mwynhau ar y castell adlamu ac yn herio ei gilydd yn yr her cadw'n sych. Daeth torf fendigedig i gefnogi a chodwyd swm sylweddol tuag at goffre'r ysgol. Diolch arbennig i Mr Mark Evans am gynnal yr ocsiwn mor broffesiynol ac hefyd i aelodau Cymdeithas Rhieni yr ysgol am eu gwaith diflino wrth drefnu ac am sicrhau fod y noson yn llwyddiant mawr.

Diolch i Samantha Neal o Lanybydder am ddod mewn i'r ysgol i helpu gyda'r garddio. Bu'r plant yn twtio ac yn plannu ac yn dysgu llawer am y grefft o dyfu a gofalu am blanhigion.

Bu criw o'r plant hŷn ar ymweliad i Ganolfan yr Urdd yng Nghaerdydd. Buont yn mwynhau gweithgareddau

amrywiol megis ymweld â'r Big Pit, taith o gwmpas Stadiwm y Mileniwm, Techniquet a Nofio yn yr LC2. Cafodd pawb amser bendigedig. Diolch i Mrs Enfys Morgan, Mrs Nerys Vobe a Mr Ebbsworth am fynd i ofalu am y plant.

## Eglwys Santes Gwenog

Y Sul olaf ym mis Mai, trefnwyd gwasanaeth Cymun Bendigaidd undebol gan y Ficer, a daeth nifer dda o'r bedair Eglwys ynghyd i Eglwys St Lucia, Llanwnnen. Darparwyd lluniaeth ysgafn gan aelodau Llanwnnen i ddilyn y gwasanaeth, cyn i nifer o'r bedair Eglwys ymuno yn y Grannell am ginio.

Dymuniadau gorau i ddisgyblion hynaf ysgol eglwysig Llanwenog sydd yn ymadael ddiwedd y tymor i fynd i Ysgol Uwchradd Bro Pedr yn Llanbed. Gobeithio y byddwch yn hapus a llwyddiannus yn eich ysgol newydd.

Cynhelir Cyngerdd yn yr Eglwys Nos Sul, Awst 9fed am 7.30 y.h. Edrychwn ymlaen at noson o gerddoriaeth yng nghwmni Côr Meibion Blaenporth. Mae gan un aelod o'r côr gysylltiadau agos â'r Eglwys a'r ardal. Bydd yr elw yn cael ei rannu rhwng Cymdeithas Alzheimer's a threuliau'r eglwys.

Cofiw am y teuluoedd sydd wedi colli anwyliad, a dymunwn wellhad buan i bawb sydd yn anhwylys yn yr ysbyty neu yn eu cartrefi.

Clwb 100 mis Mai - 1. Val Thomas, Llanllwni; 2. Lilian Davies, Llanbed; 3. Pauline Roberts-Jones, Llanwenog.

## Rhifyn Medi

Yn y Siopau  
Medi 3ydd

Erthyglau, Newyddion  
a Lluniau i law erbyn  
Awst 24ain

# Cwrtnewydd

## Diolch

Dymuniad Dai Richards, Elmo yw diolch i bawb a fu mor garedig tuag ato pan ddathlodd ei ben-blwydd yn 95 oed. Derbyniodd lu o gardiau, sawl ymweliad a'r cartref ac hefyd nifer o alwadau ffôn yn ystod y diwrnod pwysig hwnnw rai wythnosau yn ôl.

## Mabolgampau Cwrtnewydd

Cynhelir Mabolgampau Cwrtnewydd ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 11eg am 1:00 o'r gloch gyda'r llywyddion y Cyng Euros a Mrs Janet Davies, Cwmsychpant. Croeso cynnes i bawb.

## Ysgol Cwrtnewydd

Cafwyd gwyliau hanner tymor prysur iawn gan fod disgyblion Ysgol Cwrtnewydd wedi bod yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.



Ar y dydd Llun bu Nia Morgans yn cystadlu ben bore yn rownd y Cogurdd ar faes yr Eisteddfod. Cafodd Nia dipyn o hwyl arni gan iddi gael ei galw yn ôl i'r rownd derfynol ar ddiwedd y prynhawn. Ar ôl gorffen coginio tua 5 o'r gloch daeth cyhoeddiad ei bod wedi ennill y drydedd safle, llongyfarchiadau mawr i ti Nia a dal ati i gwca! Rhaid oedd ymweld â'r babell Celf a Chrefft gan fod Ela Rees wedi ennill y worbr gyntaf am ffotograffiaeth. Arbennig Ela. Ar y dydd Mercher cyfle y Gân Actol oedd hi, cafwyd perfformiad arbennig gyda'r plant am ddeg munud wedi wyth y bore! Geiriau ar y feirniadaeth oedd

“Roedd gan y criw bach ifanc yma ryw anwylddeb anesboniadwy ac fe'n denodd fel beirniaid, roedd y gân actol yma yn agos iawn am wob'r”. Arbennig blant! Cafwyd parti bach ar brynhawn Gwener i ddathlu llwyddiant y plant.

Bu plant Cyfnod Allweddol 2 yn ymweld â sioe Lleuad yn Olau gan Gwmni Arad Goch yn Theatr Felinfach, a chafwyd brynhawn o hwyl yn hel atgofion am storïau T. Llew Jones.

Bu Elin Jones o gwmni Boomerang yn cyfweld â phlant blwyddyn chwech yr Ysgol ar gyfer cwis Pyramid. Edrychwn ymlaen i'w gweld ar y teledu nes ymlaen yn y flwyddyn.

Mae Ffion Williams a Jenna Wilson wedi ymweld ag Ysgolion Dyffryn Teifi ac Uwchradd Emlyn er mwyn eu paratoi ar gyfer eu cam nesaf yn eu haddysg.

Mae Clwb Cadw'n Heini yn digwydd yn wythnosol yn yr ysgol gyda mwyafrif y plant yn aros ac yn mwynhau gwahanol weithgareddau.

Bu pump o ferched blwyddyn chwech yn ymarferion Côr Ceredigion yn ddiweddar dan arweiniad Mr Roberts, ac hefyd bu Daniel Waterman yn ymarfer gyda cherddorfa Ceredigion, gwelir y rhain yn perfformio ym Mhroms Ceredigion ar ddechrau mis Gorffennaf.

Cafwyd sesiwn o weithgareddau gwyddonol 'Mynd gyda'r llif' yng nghwmni Miss Mattie Evans o Ysgol Bro Pedr. Mwynhaodd y plant a bu iddynt elwa yn fawr iawn o'r cyfle a diolch iddi am roi o'i hamser.

Aeth nifer fawr o disgyblion yr ysgol i noson Cadw'n Sych yn Ysgol Llanwenog. Cafwyd noson o hwyl a sbri a phawb wedi mwynhau yn fawr iawn.

Dymunwn wellhad buan i Mrs Gwyneth Davies ac edrychwn ymlaen i'w chroesawu yn ôl i'r ysgol.

O hyn tan ddiwedd tymor byddwn yn brysur iawn gan fod plant blwyddyn 5 a 6 yn ymweld â Gwersyll yr Urdd Caerdydd am dridiau. Byddwn yn cynnal ein mabolgampau blynyddol, gwasanaeth blwyddyn chwech ynghyd â'r trip haf.

# Yn y Gegin gyda Gareth



## 'Blas Braf yr Haf'

Mae'r Haf yma! Hyfryd yw cael cynnig casgliad o rysetiau 'rwy'n siwr fydd yn boblogaidd dros ddyddiau braf yr Haf. Maent yn flasus, yn faethlon, ac yn hawdd i'w paratoi; perffaith felly er mwyn treulio llai o amser yn y gegin, a mwy allan yn yr awyr iach, yn mwynhau'r tywydd a'r bwyd! Y rhain yn addas ar gyfer pryd sydyn 'Al fresco', - boed yn bicnic ar daith, swper yn yr ardd, neu pryd glan-y-môr.

Felly Paciwech y picnic, taniwch y BBQ, - ac o ie, cofiwch cael gwared â'r tywod o'r sandalau!!

Mwynhewch Bwyd Braf yr Haf,

O wres y gegin,

*Gareth*

## Ffriteri Betys a Chorbwmpen (Beetroot & Courgette fritters), a Saws Lemwn

### Cynhwysion

- 2 corbwmpen
- 1 betys bach heb ei goginio
- 2 ŵy
- 75 gm blawd codi
- Llond llwy fwrdd o berlysiau wedi'u torri'n fân.
- 100g caws feta
- 1-2 llond llwy fwrdd olew
- 1 twba iogwrt Groegaidd
- 1 lemn

### Dull

1. Gratiwch y betys a'r corbwmpod; gadewch i'r hylif ddiferu i ffwrdd.
2. Cymysgwch yr wyau, fflŵr, perlysiau, feta, pupur a halen mewn powlen, ac ychwanegwch y llysiau.
3. Cynheswch yr olew mewn padell, a choginiwch y ffriteri am tua 1-2 munud pob ochr.
4. Cymysgwch yr iogwrt â sest a sudd y lemn.
5. Gweinwch yn gynnes neu wedi oeri gyda salad a chig oer.

## Salad Chorizo, ffa gwyrdd a thatws.

### Cynhwysion

- 2 llond llwy fwrdd olew'r Olewydd
- 2 sialot wedi'u torri'n fân
- 4 sibwns wedi'u torri'n fân
- 2 llond llwy fwrdd 'finegr sieri'
- 1 kg tatws newydd bach wedi'u haneri.
- 300g ffa gwyrdd
- 25g chorizo
- 70g dail 'roct'
- Ychydig o gnau almwn wedi'u haenu.



### Dull

1. Rhowch yr olew, sialots, sibwns a'r finegr mewn powlen.
2. Berwch y tatws am tua 10 munud. Draeniwch, a'u rhoi yn y 'dressing'
3. Coginiwch y ffa am 3-4 munud, a'u rhoi yn y bowlen
4. Sleisiwch y chorizo, a'u ffrio nes yn grimp. Ychwanegwch i'r bowlen gyda'r dail roced.
5. Gweinwch wedi'i daenellu â'r cnau almwn.

## Pwdin Mafon a Mêl

### Cynhwysion

- 2 llond llwy fwrdd blawd ceirch
- 300g Mafon (Raspberries)
- Ychydig siwgr mân
- 350 ml hufen dwblwl
- 2 llond llwy fwrdd mêl
- 2-3 llond llwy de o whisgi



### Dull

1. Tostiwch y blawd ceirch o dan y gril, a'i adael i oeri.
2. Stwnsiwch hanner y mafon a'u gwasgu drwy hidlen i greu piwré. Ychwanegwch y siwgr mân i'w felysu.
3. Curwch yr hufen, ac ychwanegwch y mêl a'r whisgi. (Byddwch yn ofalus rhag or-guro'r hufen). Ychwanegwch y blawd ceirch.
4. Gan ddefnyddio gweddill y mafon, rhowch haenau o'r hufen, ffrwythau a'r piwré mewn 4 ddisgl gwydr. Addurnwch â mafon cyfan, ychydig mintys a mêl.

# Gohebiaeth



## 10 munud i 4 eleni!

Mae cyn ddisgyblion hen Ysgol Ramadeg Llandysul yn trefnu aduniad eleni eto ar ddydd Iau yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod.

Cynhelir y digwyddiad ym Mhabell y Cymdeithasau am 11 o'r gloch y bore ar Awst 6ed a bydd pedwar cyn ddisgybl yn siarad am ddeng munud yr un ac yn hel atgofion am eu cyfnod nhw yn yr 'Ysgol ar y Bryn'.

Y pedwar fydd y Prifardd Aled Gwyn, yr Ymgrychudd Emyr Llew, cyn Lywydd Merched y Wawr Margaret Hughes a Philip Davies o'r Cyngor Llyfrau.

Am fwy o wybodaeth cysyllter gyda Peter Hughes Griffiths y trefnydd ar 01267 232240.

# Llanfair Clydogau

## Rhedeg Trawsgwlad

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Ffion Quan, Swm yr Afon am fod yn un o dair o ferched i gael eu dewis i gynrychioli Tîm Trawsgwlad Cymru yn Bwlgaria ar Fehefin 26 ain. Pob lwc i ti Ffion.

## Gwellhad Buan

Hoffem ddymuno'n dda i Eleanor Evans, Nantymedd ac Iris Quan, Blaencwm, y ddwy wedi bod o dan driniaeth yn ddiweddar ac Eleanor newydd ddod adref o'r ysbyty. Gwellhad buan i chwi eich dwy. Mae Barbara Tucker hefyd wedi bod yn yr ysbyty ar ôl cwmpo yn ei thŷ. Rydym yn deall ei bod wedi dod adref ond o fewn rhai diwrnodau wedi gorfod mynd nôl i'r ysbyty eto. Dymunwn wellhad buan iddi hithau.

## Newyddion Hapus

Braf oedd clywed fod Anwen Bell, Maesgwyn wedi rhoi genedigaeth i fab bychan ar ôl gorfod mynd i'r ysbyty dair wythnos cyn y disgwyl. Llongyfarchiadau i Anwen a Jonny ac i Gwyneth a Billy Noyadd ar ddod yn famgu a dadcu i Harri Gwyn, ei wyr bach cyntaf.

## Gŵyl y Cwrw

Am y nawfed blwyddyn yn olynol cynhaliwyd ein Gŵyl Gwrw ar nos Wener a dydd Sadwrn, Mehefin 5ed a'r 6ed gyda barbiciw ar y nos Sadwrn. Daeth llawer ynghyd i fwynhau a blasu wyth gwahanol math o gwrw Cymreig gyda un casgen o seidir. Erbyn tua deg ar y nos Sadwrn roedd y casgeni cwrw i gyd yn wag a phawb wedi cael amser da yn cwrdd â ffrindiau a chymdeithasu. Diolch i Lesley, Glennys eu ffrindiau a pherthnasau am eu gwaith caled yn trefnu yr ŵyl a'r barbiciw. Mae rhai ohonynt yn dod o bell ac aros dros y penwythnos ac wedi gwneud hyn ers y dechrau.

## Côr Cwmann a'r Cylch yn Llanfair.

Mae Côr Cwmann wedi cynnal dau gyngerdd yn Eglwys Llanfair yn y blynyddoedd diwethaf ac wedi cael ymateb da gan y gynulleidfa bob tro. Ar nos Sadwrn Mehefin 13eg cafodd y côr wahoddiad i ganu yn neuadd Llanfair i grŵp o dramor oedd yn yr ardal i astudio coedwigaeth wedi eu gwahodd gan gŵp cymunedol 'Longwood'. Gofynnwyd i'r côr ganu caneuon Cymraeg er mwyn i'r ymwelwyr gael blas ar ganu traddodiadol. Roedd golygfa bleserus yn ein disgwyl pan gyrhaeddodd y neuadd, gyda'r lle yn llawn o bobol ifanc o bob rhan o'r byd, o Tsheina, Vietnam, Laos, Y Congo, Ghana, Nigeria, Bolivia, Efrog Newydd, Ecwador i enw dim ond rhai o'r gwledydd. Cyflwynwyd y noson gan Cyril Davies gyda dwy ferch yn cyfieithu

yn Ffrangeg a Sbaeneg. Cyn dechrau y canu gofynnwyd i bawb yn y neuadd i sefyll fyny, dweud ei henw, ei gwlad, a chyfarch y gynulleidfa yn eu hiaith eu hunain. Cyflwynodd y côr sawl cân Gymraeg i roi blas i'r ymwelwyr y math o ganeuon sydd yn boblogaidd yng Nghymru. Yna i gloi y noson canodd y côr y Weddi Affricanaidd. Roedd yr ymateb yn syfrdanol a chyffrous gyda rhai o gyfandir Affrig yn codi i ganu a dawnsio. Penderfynwyd ail ganu y weddi gan wahodd y rhai a hoffai, i ymuno yn y gân. Dyna beth oedd diwedd glo hyfryd i noson unigryw. Yna canwyd ein hanthem genedlaethol i gloi. Bydd y noson yma yn aros yn hir yn y cof.

## Noson Codi Arian i Nepal.

Trefnwyd noson i godi arian tuag at Daeargryn Nepal gan Gwyneth Jones, Noyadd ar nos Sadwrn Mehefin 20fed. Buom yn ffodus iawn i gael Elinor Morgan (Clos yr Efail gynt) i ddod i siarad â ni am ei phrofiad fel athrawes pan gafodd y cyfle i fynd i Nepal. Roedd yr ysgol lle yr aeth i ddysgu yn rhan o ymgyrch i athrawon gael cyfle i gyfnwidd ysgol mewn rhan arall o'r byd, gydag athro o Nepal wedi bod yma yng Ngheredigion yn gyntaf. Gwnaeth Elinor trwy ei lluniau a'i disgrifiadau ddod a'i phrofiadau yn hollol fyw i ni ddeall mor dlawd ac mor wahanol mae bywyd yn Nepal i'n bywyd ni yma yng Nghymru, ac fel mae y plant mor awyddus i ddysgu mewn sefyllfa mor dlawd. Roedd symud o un man i'r llall yn anodd ac yn beryglus gyda'r hewlydd ond lonydd cul a charegog yn croesu mynyddoedd uchel. Mae hyn gyd yn gwneud i ni sylweddoli pa mor anodd yw rhoi cymorth i fannau anghysbell y wlad ar ôl y daeargryn. Codwyd dros £600 ar y noson gyda rhagor o arian wedi ei addo. Bydd yr arian yn mynd i helpu 'Daeargryn Nepal' drwy Gymorth Cristnogol. Diolch i bawb a fu mor garedig a choginio sgoniau, rhoddi mefus, a hufen a helpu gyda'r paratadau y bwyd yma a'r te; hefyd i roddion niferus y raffl. Diolch i'r Parchedig Bill Fillery am arwain y noson a rhedeg yr ocsiwn o roddion gemwaith Sarah Evans, Tynewydd.

## Mynwent yr Eglwys

Dyma y trydydd gwaith i ni dynnu sylw at y gwaith caled sydd yn dal i fynd ymlaen yn y fynwent. Mae grŵp o wirfoddolwyr o dan arweiniad Alan Leech wedi atgyweirio y waliau i gyd, mwy neu lai. Y gwaith sydd ar ôl i'w wneud yn awr yw symud y pridd oedd wedi cael ei lwytho yn erbyn y waliau pan oedd beddau yn cael eu paratoi, hefyd cerrig anferth a sawl gwreiddyn hen goed. Mae hyn i gyd yn cymryd amser. Rydym



Gŵyl Gwrw Llanfair Clydogau a gynhaliwyd yn y Neuadd.



Blas o ganu traddodiadol Côr Cwmann yn Neuadd Llanfair Clydogau.

yn siwr fod bobol y pentref yn gwerthfawrogi ac yn ddiolchgar am eu holl waith.

## Arddangosfa Gelf

Bydd arddangosfa gelf yn cael ei chynnal yn Neuadd y Pentref yn Llanfair ar ddydd Gwener, Sadwrn a Sul, Awst 21ain, 22ain, a 23ain o 11 y.b. hyd 6 y.h. Bydd gwaith amrywiol yn cael eu arddangos yn cynnwys peintiadau acrilic ac olew, printiau leino a cholograffiau, cerfiadau, feltio, ac yn y blaen. Yr artistiaid fydd Aetwen Griffiths, Ali Scott, Cassie Gray, Claire Parsons, Cynthia Westney, John Petts, Krystyna Krajewska, Sarah Evans a Sue Powell. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael a chroeso cynnes i bawb.

## Cist Car

Ar nos Wener Mai 29ain daeth un deg tri o geir at ei gilydd ger y neuadd gyda phawb yn llawn egni i gychwyn, gyda'r cyfan wedi eu drefnu gan Sandra Walters a'i thîm gan maen nhw oedd enillwyr y llynedd. Aeth y cliwiau a phawb ar daith o amgylch Llangybi a Llwyngroes gan orffen y noson yn Nhafarn Cwmann. Yr enillwyr oedd tim Alex gyda Jean Walters, Llinos ac Elonwy, gyda phawb wedi cael noson ddiddorol iawn a chymdeithasu a bwyd da i gloi y noson.



John Green Llywydd CFFI Llanddewi Brefi yn coronni Enfys Hatcher CFFI Llanwenog fel Brenhines yn Rali Ceredigion.

## Clwb Cerdded.

Mae taith yn cael ei threfnu ar hyn o bryd i gerdded o Aberarth i Aberaeron tua canol mis nesaf. Manylion y dyddiad a'r amser i ddod. Byddwn yn gorffen y daith trwy alw yng Nghaffi newydd Julian a Jane Branston yn Aberaeron.

Gofynnir am gyfraniad o

**£5**

er mwyn cynnwys neges o ddiolch ym Mhapur Bro Clonc



Tyngrug-Ganol,  
Cwmsychpant,  
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel shw mae? Ydy, mae'r haul yn dechrau dod allan i'n gweld ni ac mae'r blodau yn yr ardd yn tyfu'n dda. Gobeithio os fydd yr haul yn parhau y cawn gyfle i fynd i'r traeth i adeiladu cestyll tywod a gwneud sblash fawr wrth nofio yn y môr. Ond cofiwch blant pan fyddwch chi'n mynd am dro i'r traeth, mae'n rhaid bod yn ofalus iawn a gwranddo ar oedolyn er mwyn cadw'n ddiogel. Cofiwch hefyd ei fod yn bwysig bob amser i wisgo eli haul, sbectol haul a het am eich pen i'ch arbed rhag llosgi yn y gwres.

Wel cefais luniau di-ri drwy'r post y mis hwn a phawb wedi bod yn brysur iawn yn lliwio'n lliwgar a thaclus. Roeddwn yn hoff iawn o lun Holly Ann Davies o Abertawe ond yr un sy'n dod i'r brig yw un Lili Peyto, 99 Woodlands Park, Bexley, Caint. Da iawn bawb a llongyfarchiadau mawr i ti Lili!


Wel dwi'n edrych ymlaen i wyliau'r haf er mwyn cael mynd am dro i'r parc ac wrth gwrs i'r traeth yng Nghei Bach i fola heulo ac adeiladu cestyll tywod. Fyddwch chi'n mynd am dro i'r traeth? Ble mae eich hoff draeth chi? Wel beth am fynd ati i liwio llun o'r diwrnod ar y traeth a'i ddychwelyd ataf cyn y 24ain Awst.

Ta ta tan toc



Enillydd  
ymis!

Lili  
Peyto




Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Ariennir yn rhannol gan **Lywodraeth Cymru**



## Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



### BILL YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (75)

Ganol Gorffennaf 2013 ymddangosodd 'Dyfodol ein Gorffennol', dogfen ymgynghori ar ddeddfwriaeth benodol i ddiogelu amgylchedd hanesyddol Cymru.

Roedd sylwadau'r gweinidog Diwylliant a Chwaraeon i'w canmol:

"Mae amgylchedd hanesyddol Cymru yn adnodd gwerthfawr ... Serch hynny, mae'n adnodd sydd o dan fygythiad ac mae angen ymateb i'r heriau sy'n codi..."

Erbyn hyn mae Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) wedi dechrau ar ei daith drwy'r Cynulliad. Y cam cyntaf fydd ei ystyried gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Rhwng nawr a thoriad yr haf, bydd y pwyllgor hwnnw'n casglu tystiolaeth ar gyfer llunio adroddiad ar y ddeddfwriaeth sydd ar y gweill. 17 Mehefin eleni oedd cyfle olaf i'r cyhoedd gynnig sylwadau ar y Bil Treftadaeth.

Mae Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn grediniol fod bwriadau'r Bil Treftadaeth yn gam pwysig tuag at ddiogelu a rheoli gweddillion ffisegol yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae'r amodau sydd wedi'u rhoi gerbron yn cwmpasu adeiladau rhestredig, henebion rhestredig a pharciau a gerddi hanesyddol. Ac mae enwau, wrth gwrs, ynghlwm wrth bob un o'r gweddillion ffisegol hyn; enwau sy'n corffori negeseuon sydd wedi eu trosglwyddo inni o'r gorffennol. A'r bil yn ei wedd bresennol heb ystyried tystiolaeth yr enwau a heb warant sy'n sicrhau gwarchod enwau, mae'r

ddeddfwriaeth arfaethedig yn ei wedd bresennol yn anghyflawn. Mae hynny'n drueni. Mae'n golli cyfle i gynnig gwarchodaeth i enwau.

Mae Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn gobeithio y bydd modd ailystyried a diwygio; a rhoi lle dyladwy i enwau wrth drefnu fframwaith gwasanaethau'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

Syndod inni yw na fu ymgynghori o fath yn y byd gydag aelodau'r Gymdeithas o'r cychwyn cyntaf yn 2013. Ni fu gennym lais, ychwaith, ar y Grŵp Cyfeirio allanol a gynullwyd yn fuan wedyn. Byddai ein haelodaeth wedi croesawu gwahoddiad i gynnig tystiolaeth gerbron un o'r gweithgorau. Gwrthodwyd pob cynnig. Nid oes yr un corff arall ag arbenigedd ac enw da yn genedlaethol ac yn rhyngwladol i gynnig cyngor arbenigol ym maes enwau lleoedd Cymru.

Byddai'r Gymdeithas, yn naturiol, yn croesawu'r cyfle i gyfrannu i'r drafodaeth. Hyderwn y bydd modd ystyried hynny yn ystod yr wythnosau cyn cyfnod cau pen y mwdwl.

Oni fyddai'n dda o beth petaem yn datgan ein pryder i'r aelodau sy'n ein cynrychioli yn y Cynulliad, na chrybwyllwyd enwau lleoedd Cymru o gwbl yn y ddogfen ymgynghori ar y treftadaeth hanesyddol.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. [www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org](http://www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org) enwaulleoedd@gmail.com



Aelodau ac arweinyddion C Ff I Cwmann yn eu cinio blynyddol a gynhaliwyd yng ngwesty Tŷ Glyn ar y 30ain o Fai. Yn y llun mae'r Llywydd, Mrs Meleri Jones a gwestai'r clwb Gwawr Lewis, Is Gadeiryddes y Sir.

Beth am hysbysebu ym mhapur bro

## CLONC

Hysbyseb 6.5 x 5cm am £10, neu £60 mewn deg rhifyn  
Hysbyseb 6.5 x 10.5cm am £20, neu £120 mewn deg rhifyn  
Hysbyseb 6.5 x 5cm lliw am £25, neu £150 mewn deg rhifyn  
Hysbyseb 6.5 x 10.5cm lliw am £50, neu £300 mewn deg rhifyn  
Chwarter tudalen am £40, neu £100 am hysbyseb lliw  
Hanner tudalen am £60, neu £150 am hysbyseb lliw

Gorsaf  
Brawf  
MOT

## GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- \* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- \* Teiars am brisiau cystadleuol
- \* Ceir newydd ac ail law ar werth
- \* Batris \* Brecs \* Egsost
- \* Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

## CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL  
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:  
**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

# S4C

## Wythnos Patagonia

26 Gorffennaf - 1 Awst

Dathlu 150 o flynyddoedd ers i'r Cymry cyntaf sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia

#150patagonia

Ar deledu, ar-lein, ar alw  
s4c.cymru



# Tymor y Teithiau



Aelodau Cymdeithas Hanes Llambod ar ymweliad â Chastell Aberteifi

# Carnifal Llanybydder



Fflôt gorau - Tîm Bobsled Jamaica sef Chloe George Ffion Hopkins Sophie Hughes a Josh Rees.



Sharon Tudor a'r Parch Eirian Lewis llywyddion a beirniaid Carnifal Llanybydder gyda brenhines y carnifal Elain Williams a'i morwynion Jessica Thomas a Cerys Carmody ynghyd a'r frenhines fach Gwenno Jones a'r gwas bach sef Rhys Jones.



Tan 5 oed Beti Bwt sef Liwsi Benson, 11-15 oed Bwgan brain sef Chloe Jones, 16+ oed Batman – Carwyn Carmody, Pâr gorau Bumble Bee a Beekeeper – Nia a Gary Jones, 6-10 oed Big Ben – Logan Jones, Addurno Beic - Born to be wild – Elis Parry.



Gorau yn y carnifal:  
Born to be wild – Elis Parry